Skills for Care & Development
Sgiliau Gofal a Datblygu

alma economics

# Gwerth economaidd a chymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion yn y DU: Cymru

Ymchwil annibynnol gan Alma Economics

Paratowyd i Sgiliau Gofal a Datblygu

Gorffennaf 2024

**Am yr awduron**

alma economics

Mae Alma Economics yn cyfuno arbenigedd dadansoddol digyffelyb gyda'r gallu i gyfleu syniadau cymhleth yn glir.

www.almaeconomics.com

**Am y sefydliad comisiynu**

Mae Sgiliau Gofal a Datblygu yn Gynghrair o saith sefydliad yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon sy'n canolbwyntio ar reoleiddio a datblygu'r gweithlu ym meysydd gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Aelodau'r Gynghrair yw Gofal Cymdeithasol Cymru; Skills for Care; Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon; Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban; CORU; Cynghrair y Blynyddoedd Cynnar a Social Work England.
www.skillsforcareanddevelopment.org.uk

Cyhoeddir yr adroddiad hwn gan:

Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

**Gofal Cymdeithasol Cymru** yw'r sefydliad sy'n rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal â rhoi cymorth i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Gweler: www.gofalcymdeithasol.cymru

Northern Ireland Social Care Council

Mae **Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (*NISCC)*** yn gorff cyhoeddus a sefydlwyd gan yr Adran Iechyd i gynnal safonau ansawdd uchel mewn gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae NISCC yn helpu i godi safonau yn y gweithlu gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

Gweler: www.niscc.info

Scottish Social Services Council

**Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban (SSSC)** yw'r sefydliad sy'n rheoleiddio'r gweithlu gwaith cymdeithasol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant a phobl ifanc yn yr Alban. O ganlyniad i'w waith, mae pobl yr Alban yn gallu bod yn sicr y bydd gwasanaethau plant a phobl ifanc, gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu gan weithlu sy'n ddibynadwy, yn fedrus, yn hyderus ac yn fawr ei barch.

Gweler: www.sssc.uk.com

skillsforcare

**Skills for Care** yw'r corff strategol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynllunio'r gweithlu gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. Mae'n cydweithio â chyflogwyr, Llywodraeth a phartneriaid i sicrhau bod y bobl, y sgiliau a'r cymorth priodol ar gael ym maes gofal cymdeithasol er mwyn darparu gofal a chymorth o'r ansawdd gorau yn awr ac yn y dyfodol.

Gweler: www.skillsforcare.org.uk

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol .......... 1

1. Cyflwyniad .......... 3

2. Methodoleg .......... 5

3. Canfyddiadau .......... 11

4. Atodiad technegol .......... 20

5. Cyfeiriadau .......... 30

# Byrfoddau

### Rhestr o acronymau

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| A&E | Damweiniau ac Achosion Brys |
| ASCOF | Fframwaith Canlyniadau Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| ASCS | Arolwg Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| ASC-WDS | Set Ddata'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| ASHE | Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion |
| DALY | Blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl anabledd |
| EBITDAR | Enillion cyn llog, trethi, dibrisiant, amorteiddio ac ailstrwythuro neu renti |
| FTE | Cyfwerth ag amser llawn |
| GOS | Gwarged gweithredu gros |
| GVA | Gwerth ychwanegol gros |
| INA | Blwydd-dâl at anghenion ar y pryd |
| PSSRU | Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol |
| QALY | Blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd |
| SCRQoL | Ansawdd bywyd cysylltiedig â gofal cymdeithasol |

### Rhestr o ddiffiniadau

| Term allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Ansawdd bywyd cysylltiedig â gofal cymdeithasol (SCRQoL) | Mae SCRQoL yn rhan o'r Fframwaith Canlyniadau Gofal Cymdeithasol Oedolion (ASCOF) a'r Arolwg Gofal Cymdeithasol Oedolion (ASCS) sy'n cael ei fesur ar sail "1A: Ansawdd bywyd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau". Mae hyn yn mesur y profiad y mae'r defnyddiwr gwasanaethau yn rhoi gwybod amdano mewn wyth maes canlyniad sy'n cwmpasu rheolaeth, urddas, gofal personol, bwyd a maeth, diogelwch, cyfranogiad cymdeithasol a llety. |
| Arolwg Gofal Cymdeithasol Oedolion | Mae'r Arolwg Gofal Cymdeithasol Oedolion o Wasanaethau Cymdeithasol Personol yn arolwg blynyddol o'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau 18 oed a hŷn sydd wedi derbyn gwasanaethau cymorth hirdymor yn Lloegr. Nod yr arolwg yw cael gwybod pa mor effeithiol yw gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion o ran cynorthwyo'r rheini sy'n eu defnyddio (NHS Digital, 2023). |
| Blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl anabledd (DALY) | Mae DALY yn fesur o flwyddyn a gollwyd neu flwyddyn o fywyd pan brofwyd effaith niweidiol o ganlyniad i salwch, anabledd neu anaf. Mae un DALY yn gyfwerth â cholli un flwyddyn o fywyd iach o ganlyniad i farw cyn pryd. |
| Blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY) | Mesur o gyflwr iechyd person neu grŵp o bobl lle mae'r buddion, o ran hyd einioes, yn cael eu haddasu i adlewyrchu ansawdd bywyd. Mae un flwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY) yn hafal i 1 flwyddyn fywyd mewn iechyd |

| | |
|---|---|
| | perffaith. |
| Cyfwerth ag amser llawn (FTE) | Mae FTE yn hafal i'r oriau a fyddai'n cael eu gweithio gan rywun sydd mewn cyflogaeth amser llawn mewn wythnos. Er bod hyn yn amrywio rhwng gwledydd, yng Nghymru mae'n cyfateb i 37 awr. Felly, os yw rhywun yn gweithio ar FTE o 0.5, byddai'n gweithio hanner yr oriau a fyddai'n cael eu gweithio gan rywun sydd mewn cyflogaeth amser llawn (h.y. 18.5 awr yr wythnos). |
| Cymhareb colled | Term a ddefnyddir yn y sector yswiriant yw cymhareb colled. Hon yw'r golled y mae'r yswiriwr yn ei ysgwyddo o ganlyniad i dalu am hawliadau fel canran o'r premiymau a enillwyd. Mae'n cyfateb i'r gyfran o'r incwm a enillir gan yr yswiriwr sydd wedyn yn cael ei hawlio gan gwsmeriaid yswiriant. |
| Cymhareb cost a budd | Cymhareb yr amcangyfrif o werth buddion o'i gymharu â chostau. Os yw'r gymhareb yn fwy nag 1, mae hyn yn dangos bod gwariant o £1 yn dod â budd sy'n fwy nag £1. |
| Cynorthwywyr personol | Mae cynorthwywyr personol yn bobl a gaiff eu cyflogi'n uniongyrchol gan rywun sydd ag angen cymorth. Gallant gael eu cyflogi hefyd gan aelod o'r teulu neu gynrychiolydd os nad oes galluedd corfforol neu feddyliol i'w cyflogi gan y person sy'n derbyn cymorth ganddynt. Bydd y cynorthwyydd personol yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r unigolyn y mae'n ei gynorthwyo mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn ei alluogi i fyw yn ôl ei ddymuniadau a'i ddiddordebau. |
| Derbynnydd taliadau uniongyrchol | Unigolyn sy'n derbyn taliadau oddi wrth y Llywodraeth neu awdurdod lleol i dalu am ei ofal ei hun, yn hytrach na chael gofal sydd wedi'i ragnodi ar ei gyfer. |
| Effaith economaidd-gymdeithasol | Mae'r effaith economaidd-gymdeithasol yn cynnwys buddion ehangach i gymdeithas, sydd heb eu cofnodi mewn modelau macro-economaidd, fel llesiant oedolion sy'n derbyn gofal. |
| Effaith facro-economaidd | Mae'r effaith facro-economaidd yn cynnwys y cyfraniad gan y sector gofal cymdeithasol oedolion i'r economi, yn cynnwys cyflogau gofalwyr ac elw gweithredol y darparwyr (effaith uniongyrchol), yn ogystal â'r galw a'r incwm a gynhyrchwyd mewn sectorau eraill o ganlyniad i ofal cymdeithasol oedolion (effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig). |
| Effeithiau anuniongyrchol | Effeithiau anuniongyrchol yw'r effeithiau hynny a grëwyd gan y galw am nwyddau a gwasanaethau canolraddol gan y darparwr gofal cymdeithasol oedolion er mwyn darparu ei wasanaethau. |
| Effeithiau uniongyrchol | Yr effeithiau economaidd sy'n cael eu creu gan weithrediad y sector gofal cymdeithasol oedolion ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys enillion cyflogeion yn y sector, gwarged gweithredu gros darparwyr gofal annibynnol a nifer y swyddi a grëwyd. |
| Effeithiau ysgogedig | Effeithiau ysgogedig yw'r effeithiau hynny a grëwyd gan newidiadau yn ymddygiad prynu unigolion sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn y sector gofal cymdeithasol oedolion. |
| Enillion cyn llog, trethi, dibrisiant, amorteiddio ac | Mae EBITDAR yn fesur safonol o broffidioldeb gweithredu i'r sector preifat. Mae EBITDAR yn ymwneud â phrif weithrediadau'r cwmni, heb gynnwys costau fel trethi, rhenti a chostau sydd heb fod yn arian parod. Mae hyn yn hwyluso'r |

| | |
|---|---|
| ailstrwythuro neu renti (EBITDAR) | gallu i gymharu rhwng cwmnïau gan ei fod yn lleihau gwahaniaethau sy'n codi o ffactorau sydd heb gysylltiad â gweithrediadau craidd y cwmni. |
| Gofal annibynnol | Darparwyr gofal cymdeithasol oedolion yn y sectorau preifat a gwirfoddol. |
| Gofal cartref | Gofal a ddarperir yng nghartref y defnyddiwr gwasanaethau neu yng nghartref y teulu |
| Gofal dydd | Gofal a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn canolfan gofal dydd (amhreswyl) neu'r ddarpariaeth o weithgareddau y tu allan i'r cartref. |
| Gofal cyhoeddus | Cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol oedolion sy'n eiddo i awdurdodau lleol a'r GIG ac yn cael eu gweithredu ganddynt. |
| Gofal heb ei reoleiddio | Cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol oedolion nad ydynt yn gorfod cael eu harolygu neu eu rheoleiddio. |
| Gofal nyrsio | Cymorth a ddarperir i unigolion sydd ag anghenion ar lefel uwch. Mae cymorth o'r math hwn yn cael ei ddarparu gan ofalwr sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig a'i oruchwylio gan nyrsys. |
| Gofal preifat | Cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol oedolion sy'n eiddo i fentrau preifat er-elw. |
| Gofal preswyl | Gofal a ddarperir mewn lleoliad preswyl yn hytrach nag yng nghartref y defnyddiwr gwasanaethau neu gartref y teulu. |
| Gofalwr di-dâl | Rhywun sy'n darparu help yn ddi-dâl i ffrind neu aelod o'r teulu sydd ag angen cymorth, efallai o ganlyniad i salwch, oed hŷn, anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu ddibyniaeth (Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2018). |
| Gofalwr ffurfiol | Rhywun sy'n cael ei gyflogi i ddarparu help am dâl i oedolion sydd ag anableddau a/neu afiechydon corfforol neu feddyliol. |
| Gwarged gweithredu gros (GOS) | Y GOS yw incwm llai costau gweithredu. Mae'n diffinio'r incwm sy'n cael ei gynhyrchu drwy elw a rhenti gan ddarparwyr annibynnol sy'n cynnig gofal cymdeithasol i oedolion ar ôl tynnu, er enghraifft, costau staff, costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau o ddydd i ddydd a chostau trafnidiaeth. |
| Gwerth ychwanegol gros (GVA) | Swm y nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u cynhyrchu, llai cost yr holl fewnbynnau a deunyddiau crai y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r cynhyrchu hwnnw. |
| Sector gofal gwirfoddol | Darparwyr gwasanaethau yn y sector gofal cymdeithasol oedolion sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau nid-er-elw. |
| Sector gofal rheoleiddiedig | Cyflogwyr yn y sector gofal cymdeithasol oedolion sy'n cael eu harolygu a'u rheoleiddio gan yr arolygwyr gofal cymdeithasol cenedlaethol. |

# Crynodeb gweithredol

Yn 2022, roedd 84,134 o bobl gyflogedig yn y gweithlu gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, 7% yn fwy nag yn 2021. Mae'r sector yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau sydd wedi'u teilwra i gynorthwyo oedolion sydd ag anghenion am ofal a chymorth, ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Disgwylir y bydd gofal cymdeithasol oedolion yn dod yn bwysicach byth yn y dyfodol, o ganlyniad i gynnydd yn y galw. Er enghraifft, rhagwelir y bydd nifer y bobl dros 85 oed yn cynyddu 62% erbyn 2037 (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024a).

Gan gydnabod pwysigrwydd y sector gofal cymdeithasol oedolion, roedd Sgiliau Gofal a Datblygu (a elwir yn "Gynghrair" yn yr adroddiad hwn) wedi comisiynu Alma Economics i ddadansoddi gwerth economaidd a chymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion yn y DU ac ym mhob un o'r pedair gwlad. Drwy amcangyfrif gwerth y sector, mae aelodau'r Gynghrair yn bwriadu cyfrannu at lunio polisi cyhoeddus a gwella dealltwriaeth y cyhoedd, gan roi gofal cymdeithasol yn ei gyd-destun fel buddsoddiad cymdeithasol ac economaidd hanfodol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru; mae'r tîm ymchwil wedi llunio adroddiadau ar wahân yn trafod y canfyddiadau ar gyfer pob un o'r pedair gwlad a'r DU gyfan.

Ar gyfer yr ymchwil hon, roedd y tîm wedi datblygu dau fath o fodel, un yn canolbwyntio ar effeithiau macro-economaidd a'r llall ar effeithiau economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddau fodel yn ystyried amryfal fathau o leoliadau gofal (e.e. preswyl) ac o ddarparwyr gwasanaethau (e.e. awdurdod lleol), yn cynnwys gofal di-dâl, yn y sector rheoleiddiedig a'r sector sydd heb ei reoleiddio.

Mae'r modelau macro-economaidd yn amcangyfrif y graddau y mae'r sector gofal cymdeithasol oedolion yn cyfrannu i'r economi. Yn benodol, roeddem wedi amcangyfrif effaith facro-economaidd y sector gan roi sylw i gyflogau ac enillion cyflogeion yn y sector, yn ogystal ag elw gweithredol darparwyr gofal annibynnol (effaith uniongyrchol). **Mae ein hamcangyfrifon yn awgrymu, ar gyfer 2023, fod Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) o fwy na £2.1 biliwn a 74,900 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTEs) wedi cael eu creu drwy weithrediadau uniongyrchol y sector gofal cymdeithasol oedolion, gan arwain at gynhyrchiant llafur o tua £27,800 am bob swydd FTE. Ar ôl cynnwys gofal di-dâl, yr amcangyfrif o'r effaith uniongyrchol ar GVA yw bron £8.1 biliwn, ac mae nifer y swyddi FTE yn cynyddu i bron 331,200, gan roi cynhyrchiant llafur o £24,500 am bob swydd FTE.**

Roedd yr ymchwil wedi ymdrin hefyd â'r effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig o ofal cymdeithasol oedolion. Mae'r effaith anuniongyrchol yn codi o'r cynnydd yn y galw mewn sectorau eraill sydd yn rhan o gadwyn gyflenwi'r sector gofal cymdeithasol oedolion, fel cyfarpar diogelu personol neu addasiadau yn y cartref. Mae effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau ysgogedig ill dau'n arwain at gynnydd yn incwm aelwydydd ar draws yr economi, wedi'i sbarduno gan gynnydd mewn cyflogaeth. Bydd cyfran o'r

incwm ychwanegol hwn yn cael ei gwario ar nwyddau eraill, sy'n creu'r effaith ysgogedig. **Yr amcangyfrif o'r effaith anuniongyrchol, h.y., y gwerth a'r gyflogaeth a grëwyd mewn sectorau eraill o ganlyniad i'r sector gofal cymdeithasol oedolion, yw 27,000 o swyddi FTE a GVA o £1 biliwn. Yn yr un modd, yr amcangyfrif o'r effaith ysgogedig, o ganlyniad i wariant ychwanegol gan unigolion sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y sector, yw 14,900 o swyddi FTE a GVA o £1.5 biliwn.**

**Drwyddo draw, mae wedi'i amcangyfrif bod y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yn cefnogi 116,700 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) ac yn cynhyrchu gwerth o £4.6 biliwn wrth ystyried effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig, heb gynnwys gofal di-dâl**. Mae'r amcangyfrif o GVA y sector gofal cymdeithasol oedolion yn cyfateb i tua 6.98% o gyfanswm y GVA yng Nghymru yn 2023, i fyny o 1.9% yn 2016 (ICF 2018e; Swyddfa Ystadegau Gwladol 2024b). Fodd bynnag, rydym yn argymell bod cymariaethau uniongyrchol o'r fath yn cael eu trin yn ofalus o ystyried newidiadau mewn methodoleg a phryderon am ansawdd data.

Mae'r sector gofal cymdeithasol oedolion hefyd yn creu buddion o lawer math sydd heb eu dangos mewn GVA neu fesurau cyflogaeth, fel llesiant yr oedolion sy'n derbyn gofal a thawelwch meddwl i'r boblogaeth gyffredinol. Er mwyn amcangyfrif maint yr effeithiau economaidd-gymdeithasol hyn, roeddem wedi cymharu costau a buddion gofal cymdeithasol oedolion â senario damcaniaethol lle mae'r sector gofal cymdeithasol oedolion (yr un ffurfiol a'r un di-dâl) yn peidio â bod. Mae'r canlyniadau o'r dadansoddiad hwn yn awgrymu mai buddion economaidd-gymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion yw £22.6 biliwn ac mai ei gostau yw £8.1 biliwn. Felly, am bob £1 a gaiff ei gwario, ceir buddion economaidd-gymdeithasol o £2.78.

# 1. Cyflwyniad

**Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y sector, mae Sgiliau Gofal a Datblygu wedi comisiynu Alma Economics i ddadansoddi gwerth economaidd a chymdeithasol y sector Gofal Cymdeithasol Oedolion yn y DU ac ym mhob un o’r pedair gwlad. Roedd y prosiect wedi amcangyfrif gwerth y sector, a bydd y canfyddiadau o gymorth wrth lunio dadleuon o blaid buddsoddi ac wrth lunio polisi, ac yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o bwysigrwydd y sector.**

**Y penodau yn y ddogfen hon yw: 1. Cyflwyniad, 2. Methodoleg, 3. Canfyddiadau, 4. Atodiad technegol, a 5. Cyfeiriadau.**

## 1.1. Cefndir

Mae Sgiliau Gofal a Datblygu yn Gynghrair o saith sefydliad allweddol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon sydd yn canolbwyntio ar reoleiddio a datblygu’r gweithlu ym meysydd gofal cymdeithasol, gwaith cymdeithasol a’r blynyddoedd cynnar. Aelodau’r Gynghrair yw Gofal Cymdeithasol Cymru; Skills for Care; Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon; Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban; CORU; Cynghrair y Blynyddoedd Cynnar a Social Work England.

Er mwyn hybu cynaliadwyedd y sector yn y tymor hir, mae Sgiliau Gofal a Datblygu yn ceisio ymhelaethu ar y wybodaeth economaidd sydd gan y Gynghrair, a chyfrannu at yr achos economaidd o blaid buddsoddi yn y sector gofal cymdeithasol oedolion. I’r perwyl hwnnw, comisiynwyd Alma Economics gan Sgiliau Gofal a Datblygu i ddadansoddi gwerth economaidd a chymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion yn y DU gyfan ac ym mhob un o’r pedair gwlad.

Nod cyffredinol y prosiect yw:

- cyfrannu at yr achos economaidd o blaid buddsoddi yn y sector gofal cymdeithasol a’i weithlu yn y DU gyfan (yn ogystal â chael dadansoddiadau ar sail y gwledydd), dylanwadu ar waith llunio polisi a phenderfyniadau ar fuddsoddi mewn adolygiadau cenedlaethol o wariant.
- gwella dealltwriaeth y cyhoedd o werth y sector, gan ddangos mor bwysig yw buddsoddi mewn gofal cymdeithasol.

## 1.2. Strwythur y ddogfen

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno ein methodoleg a’n prif ganfyddiadau o’r dadansoddiad o effeithiau macro-economaidd ac economaidd-gymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Mae’r ddogfen yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Pennod 2 sy’n rhoi amlinelliad byr o’n methodoleg, gan gynnwys (i) y diffiniad o’r sector a ddefnyddiwyd; (ii) y grwpiau o ddiddordeb a ddadansoddwyd; (iii) yr effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig a ystyriwyd; a (iv) y

mathau o effeithiau sydd wedi’u cynnwys yn y costau a buddion economaidd-gymdeithasol.

- Pennod 3 sy’n cyflwyno’r prif ganfyddiadau o’r dadansoddiad o effeithiau macro-economaidd ac economaidd-gymdeithasol.
- Pennod 4 yw’r Atodiad Technegol sy’n cynnwys manylion ein methodoleg, ein ffynonellau a’r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i ddod at amcangyfrif o werth uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig y sector, yn ogystal â’r gymhareb cost a budd o’i weithredu.
- Pennod 5 sy’n dangos y ffynonellau y cyfeiriwyd atynt drwy gydol yr adroddiad.

# 2. Methodoleg

**Yn dilyn adolygiad desg trylwyr, nodwyd y meysydd allweddol lle'r oedd y sector gofal cymdeithasol oedolion yn cael effaith. Ar sail y rhain, crëwyd dau fath o fodel, un yn cynnwys yr effeithiau macro-economaidd ac un arall yn canolbwyntio ar yr effeithiau economaidd-gymdeithasol.**

Yng nghyd-destun y dadansoddiad hwn, y diffiniad o ofal cymdeithasol yw *"y cymorth a ddarperir i oedolion (yn bobl hŷn ac yn bobl o oedran gweithio) sydd ag anableddau corfforol, anableddau dysgu neu afiechydon corfforol neu feddyliol, ac i'w gofalwyr. Gall hyn gynnwys gofal personol (fel cymorth i fwyta, ymolchi neu wisgo amdanynt) neu help gyda rheolweithiau domestig (fel glanhau neu fynd i'r siopau)."* (Foster, 2024)

**Yn y dadansoddiad hwn, ystyrir amryfal fathau o leoliadau gofal (e.e. preswyl) a darparwyr gwasanaethau (e.e. awdurdod lleol), yn cynnwys gofal di-dâl, ym mhob rhan o'r sector rheoleiddiedig a'r sector sydd heb ei reoleiddio.**

**Mae effaith facro-economaidd y sector yn cynnwys effeithiau uniongyrchol, effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau ysgogedig. Amcangyfrifwyd yr effaith uniongyrchol drwy ddefnyddio'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA), sef cyfanswm gwerth cyflogau ac enillion y cyflogeion yn y sector gofal cymdeithasol oedolion, a gwarged gweithredu gros y darparwyr gofal annibynnol. Roeddem hefyd wedi amcangyfrif costau a buddion economaidd-gymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion, gan gynnwys effeithiau uniongyrchol ac ysgogedig, yn ogystal â buddion diriaethol ac anniriaethol.**

## 2.1. Trosolwg ar y dull arfaethedig

Roedd ein dull gweithredu arfaethedig yn cynnwys tri cham. Yn y cam cyntaf, roeddem wedi cwmpasu a mapio effeithiau er mwyn canfod y prif feysydd effaith a datblygu cynllun dadansoddi manwl. Yn yr ail gam, datblygwyd model economaidd i ddiweddaru'r dadansoddiad o effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig, a hefyd i gyfrifo buddion ehangach a buddion i lesiant. Yn y cam olaf, roeddem wedi drafftio'r adroddiad am y canfyddiadau ar gyfer pob gwlad ac ar gyfer y DU gyfan.

Yn benodol, roedd Cam 2 yn cynnwys:

- Cyfrifo effaith facro-economaidd gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru gan ddefnyddio effeithiau mesuradwy. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau uniongyrchol, effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau ysgogedig. Yn fyr, mae'r dadansoddiad macro-economaidd yn ystyried yr incwm a gynhyrchwyd mewn sector penodol a'r rheini y mae'n effeithio arnynt er mwyn amcangyfrif cyfanswm y GVA a'r gyflogaeth a grëwyd.
- Amcangyfrif costau a buddion economaidd-gymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru.

- Creu astudiaethau achos dangosol o ymyriadau a rhaglenni a brofwyd yn llwyddiannus ym maes gofal cymdeithasol oedolion (wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad ar y DU gyfan).

## 2.2. Diffinio'r sector

Nid oes diffiniad sefydledig o ofal cymdeithasol ac mae ystod yr anghenion gofal sydd gan bobl yn lletach nag unrhyw ddiffiniad. I ddibenion y gwaith hwn, defnyddiwyd y diffiniad canlynol: *"Gofal cymdeithasol oedolion yw'r cymorth a ddarperir i oedolion (yn bobl hŷn ac yn bobl o oedran gweithio) sydd ag anableddau corfforol, anableddau dysgu neu afiechydon corfforol neu feddyliol, ac i'w gofalwyr. Gall hyn gynnwys gofal personol (fel cymorth i fwyta, ymolchi neu wisgo amdanynt) neu help gyda rheolweithiau domestig (fel glanhau neu fynd i'r siopau).*" (Foster 2024)

Mae'r diffiniad yn gallu amrywio yn ôl y wlad a'r cyd-destun. Yng Nghymru, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol i gwrdd ag anghenion oedolion am ofal a chymorth, os yw'r oedolyn o fewn ardal yr awdurdod lleol neu os yw'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod, ond ei fod y tu allan i'w ardal (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn yr un modd, mae'r ddeddf yn pennu'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol i gwrdd ag anghenion y gofalwr am gymorth, lle bo'n briodol.

### 2.2.1. Grwpiau o ddiddordeb

Ar gyfer yr astudiaeth hon, roeddem wedi gweithio ar sail adroddiad blaenorol gan yr ICF (2018e) a gomisiynwyd gan y Gynghrair i edrych ar werth economaidd y sector gofal cymdeithasol oedolion ym mhob gwlad ac yn y DU gyfan. Gan ddilyn yr ICF (2018e), roeddem wedi cynnwys y grwpiau canlynol yn ein diffiniad o ofal cymdeithasol oedolion: (i) darparwyr rheoleiddiedig yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol; (ii) darparwyr sydd heb eu rheoleiddio; a (iii) pobl sy'n cyflogi cynorthwywyr personol. Er hynny, rydym yn cydnabod bod gofal di-dâl yn rhan sylweddol o ofal cymdeithasol oedolion. Felly, roeddem wedi mynd ymhellach na methodoleg yr ICF ac wedi dadansoddi'r cyfraniad economaidd gan ofalwyr di-dâl a'r cymorth ariannol a ddarperir iddynt.

Roeddem hefyd wedi ystyried y gwahanol leoliadau gofal yn y sector rheoleiddiedig a'r sector nas rheoleiddir. Yn benodol, roeddem wedi casglu data am y lleoliadau gofal canlynol:

- Gofal preswyl
- Gofal nyrsio
- Gofal cartref
- Gofal dydd
- Lleoliadau gofal eraill

Rydym yn deall bod anghenion yr unigolyn yn amrywio yn ôl ei oed. Felly, byddwn yn rhannu ein dadansoddiad yn ddau grŵp oedran, lle bo modd: (i) oedolion 18-64 oed sy'n cynnwys yn bennaf unigolion sydd ag anableddau corfforol neu anableddau dysgu a'r rheini sydd ag anghenion iechyd meddwl; a (ii) oedolion sy'n hŷn na 65 oed.

## 2.3. Effeithiau a’r dull o’u mesur

Yn dilyn adolygiad manwl o’r llenyddiaeth a’r dystiolaeth, rydym wedi canfod effeithiau o ofal cymdeithasol oedolion sydd yn uniongyrchol, anuniongyrchol, ysgogedig ac yn ehangach. Defnyddiwyd yr effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig i gyfrifo effaith facro-economaidd y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, tra defnyddiwyd yr effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach yn ein dadansoddiad o’r effaith economaidd-gymdeithasol. Mae’r is-adrannau isod yn dangos yr effeithiau a fesurwyd, y dangosyddion a ddefnyddiwyd a’r sail resymegol. Mae’r holl ffigurau wedi’u hadrodd yng ngwerthoedd 2023. Addaswyd amcangyfrifon cyn 2023 i werthoedd 2023 drwy ddefnyddio datchwyddwyr cynnyrch domestig gros.

### 2.3.1. Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)

**Dangosyddion:**

- **Cyflogau ac enillion** y cyflogeion yn y sector gofal cymdeithasol oedolion.
- **Gwarged Gweithredu Gros** i gofnodi’r incwm a gynhyrchwyd gan y sector, heblaw cyflogau.

GVA yw’r mesur safonol a ddefnyddir i amcangyfrif yr effaith facro-economaidd o sector penodol. Mae GVA yn mesur “*y gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned sy’n ymwneud â chynhyrchu a’r cyfraniadau gan sectorau neu ddiwydiannau penodol at gynnyrch domestig gros. Fe’i mesurir ar brisiau sylfaenol, heb gynnwys trethi llai cymorthdaliadau ar gynhyrchion*” (Swyddfa Ystadegau Gwladol, d.d.). Ceir dulliau gwahanol o gyfrifo GVA, sef dulliau yn ymwneud ag incwm, gwariant ac allbwn. Fodd bynnag, ar sail holl adroddiadau’r ICF, byddai’r tri dull o gyfrifo GVA wedi rhoi canlyniadau tebyg (ICF, 2018a; 2018b; 2018c; 2018d; 2018e).[1] Felly, roeddem wedi dilyn y dull a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad gan Network Analytics a Skills for Care (2021) a chan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017), ac wedi cyfrifo GVA ar sail y dull sy’n mesur incwm (h.y. mesur cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd gan y sector). Dewiswyd y dull seiliedig ar incwm am fod y dangosyddion sydd eu hangen yn rhai sydd ar gael yn rhwydd, yn cael eu diffinio’n gyson ac yn cael eu cyfrifo mewn ffordd ddibynadwy. Roedd hyn yn hwyluso’r gallu i gasglu data cyfanredol ar lefel y DU a chymharu rhwng gwledydd.

### 2.3.2. Cynhyrchiant llafur

**Dangosyddion:**

- **GVA**
- **Swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE)**

Mae cynhyrchiant yn fesur allweddol o werth macro-economaidd, fel roedd Trysorlys EF wedi pwysleisio yn 2022. Yn y cyd-destun hwn, roeddem wedi canolbwyntio ar gynhyrchiant llafur, sef y GVA y gynhyrchir am fesur penodol o lafur. Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol 2023a yn cyfrifo cynhyrchiant drwy gymryd y GVA am bob awr sy’n cael ei gweithio, fesul gweithiwr neu swydd. Fodd bynnag, er mwyn gallu cymharu hyn ag adroddiadau blaenorol am ofal cymdeithasol oedolion (h.y. ICF 2018d a KD Network

Analytics a Skills for Care yn 2021), roeddem wedi cyfrifo cynhyrchiant llafur fel y GVA am bob swydd FTE.

---

[1] Mae'r adroddiad gan KD Network Analytics a Skills for Care (2021) yn nodi "mewn damcaniaeth, ac o gael data perffaith, bydd pob un o'r tri dull yn rhoi'r un ateb".

### 2.3.3. Osgoi costau ariannol i'r GIG

**Dangosyddion:**

- **Derbyniadau i'r ysbyty**
- **Derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys (A&E)**
- **Rhyddhad o unedau gofal acíwt**

Mae gwaith y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol yn ategu ei gilydd. Mae gweithwyr gofal yn gallu helpu i atal ysbytyeiddio a damweiniau, gan leihau amlder yr ymweliadau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Yn ogystal â hynny, rhaid gwneud trefniadau gofal cymdeithasol cyn rhyddhau cleifion o unedau gofal acíwt. Felly, os nad oes capasiti digonol o ran gofal cymdeithasol oedolion, bydd y GIG yn ysgwyddo costau ychwanegol am ei fod yn gorfod lletya unigolion meddygol ffit y byddai wedi bod yn bosibl eu rhyddhau.

### 2.3.4. Buddion o ran tawelwch meddwl

**Dangosydd:**

- **Cymhareb colled** darparwyr gofal tymor hir preifat

Roeddem wedi amcangyfrif y buddion o ran tawelwch meddwl a geir o ganlyniad i'r sicrwydd bod gofal tymor hir ar gael os bydd ei angen. Er mwyn gwneud hynny, defnyddiwyd tystiolaeth o Forder (2011) sy'n dangos bod unigolion sy'n prynu yswiriant yn talu mwy mewn premiymau nag y maent yn ei gael drwy wneud hawliadau. Mae hyn yn awgrymu eu bod yn cael buddion eraill heblaw rhai ariannol. Rydym yn cynnig bod pobl yn barod i dderbyn y gost ariannol am eu bod yn gweld gwerth yn y tawelwch meddwl a geir drwy yswirio. Felly, gallwn gyfrifo maint y budd o ran tawelwch meddwl drwy ddefnyddio'r golled ariannol y mae unigolion yn barod i'w derbyn drwy yswirio. Rydym yn disgwyl bod gofal cymdeithasol oedolion hefyd yn rhoi tawelwch meddwl i'r boblogaeth gyffredinol drwy sicrhau y bydd cymorth ar gael pan fo'i angen.

### 2.3.5. Ansawdd bywyd a llesiant

**Dangosyddion:**

- **Ansawdd Bywyd cysylltiedig â Gofal Cymdeithasol** (SCRQoL) sydd wedi'i fesur yn yr Arolwg Gofal Cymdeithasol Oedolion. Mae Trysorlys EF (2022) wedi nodi ei bod yn bwysig ystyried llesiant wrth arfarnu a gwerthuso polisi ac mae'n awgrymu gwahanol ddulliau i'w fesur. Gan ddilyn adroddiad KD Network Analytics a Skills for Care (2021), roeddem wedi mesur a phriodoli gwerth ariannol i effaith gofal cymdeithasol oedolion ar Ansawdd Bywyd cysylltiedig â Gofal Cymdeithasol. Defnyddiwyd y mesur SCRQoL wedi'i addasu, gan ddilyn Forder et al. (2016), i roi cyfrif am (i) ffactorau allanol a allai ddylanwadu ar ansawdd gwasanaethau, a (ii) gwahanol ddewisiadau rhwng y mesurau SCRQoL.

- **Blynyddoedd Bywyd a addaswyd yn ôl Ansawdd (QALYs):** Mae’r gallu i gael gofal cymdeithasol yn ei gwneud yn llai tebygol o lawer y bydd unigolion yn cael anaf ac yn syrthio, a thrwy hynny’n atal dirywiad yn eu hiechyd. Felly, mae gofal cymdeithasol yn gallu gwella canlyniadau iechyd i’r rheini sy’n cael gofal, yn ogystal â chreu effaith gysylltiedig ar lesiant o ganlyniad i dderbyn gofal (wedi’i mesur ar sail SCRQoL sydd wedi’i egluro uchod). Mae canlyniadau iechyd yn cael eu mesur fel arfer mewn blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALYs), y gellir eu mesur a phriodoli gwerth ariannol iddynt. QALYs yw’r blynyddoedd iach ychwanegol y mae unigolion yn eu cael o ganlyniad i dderbyn cymorth. Yn unol â’r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF (2022), gellir priodoli gwerth ariannol i QALYs drwy gymhwyso gwerth o £70,000 (ym mhrisiau 2020) am bob QALY a geir. Er enghraifft, os cafwyd bod ymyriad yn creu 0.4 QALY (h.y. 40% o un flwyddyn o iechyd a llesiant perffaith), mae hynny’n golygu mai budd ariannol yr ymyriad yw £28,000 ym mhrisiau 2020.

## 2.4. Effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig

Mae’r sector gofal cymdeithasol oedolion yn cynhyrchu gwerth ychwanegol drwy effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig ar ben ei effaith economaidd uniongyrchol. Effeithiau anuniongyrchol yw’r rheini a grëwyd gan y galw am nwyddau a gwasanaethau canolraddol gan y sector gofal iechyd oedolion er mwyn darparu ei wasanaethau. Er enghraifft, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion ag angen cyflenwadau meddygol, addysg a hyfforddiant i gyflogeion, cynhyrchion a gwasanaethau glanhau, dodrefn a nwyddau tŷ, ymysg pethau eraill. O ganlyniad i hyn, mae gofal cymdeithasol oedolion yn hyrwyddo cyflogaeth ac yn ychwanegu at GVA ar ben ei gyfraniad uniongyrchol. Effeithiau ysgogedig yw’r rheini a grëwyd drwy brynu nwyddau a gwasanaethau gan unigolion a gyflogwyd (yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol) gan y sector gofal cymdeithasol oedolion.

## 2.5. Amcangyfrif effaith economaidd-gymdeithasol y sector

Mae’r adran hon yn disgrifio’r dull a ddefnyddiwyd i amcangyfrif costau a buddion economaidd a chymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Yn is-adran 2.5.1, rydym yn amlinellu ein methodoleg, yn cynnwys y senario dadansoddol a’r mathau o effaith. Yn is-adran 2.5.2, rydym yn disgrifio ein dull o gyfrifo’r costau a buddion sydd wedi’u cynnwys yn ein dadansoddiad.

Roedd ein dull o weithredu’n rhoi cyfrif am gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn ogystal â’r buddion diriaethol ac anniriaethol sy’n gallu deillio o’r sector. Roedd y costau uniongyrchol yn ymwneud â’r buddsoddi ariannol sydd ei angen i gynnal gweithrediadau’r sector o ddydd i ddydd, fel costau llafur gweithwyr gofal. Mae’r costau anuniongyrchol yn cynnwys y sgil-effeithiau sydd heb fod yn arian parod o ddarparu gofal cymdeithasol oedolion sy’n codi’n anuniongyrchol o weithrediadau’r sector, ond sydd heb fod yn rhan o’r costau gweithredu. Yn benodol, roeddem wedi cynnwys cyflogau gofalwyr ffurfiol y byddai angen eu talu i ddarparu’r un lefel o ofal â’r hyn a

gynigir gan ofalwyr di-dâl ar hyn o bryd. Gyda golwg ar fuddion diriaethol, fel llai o dderbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys, mesurwyd y rhain a phriodoli gwerth ariannol iddynt ar sail costau a osgöwyd. Mesurwyd gwerth ariannol i fuddion anniriaethol, fel buddion o ran tawelwch meddwl, drwy ddefnyddio tystiolaeth o lenyddiaeth ar lefel ryngwladol am ddewisiadau pobl a'u parodrwydd i dalu am fuddion o'r fath.

### 2.5.1. Senario dadansoddol

Er mwyn mesur a phriodoli gwerth ariannol i'r costau a buddion sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol oedolion, roedd angen cael sail ar gyfer cymharu. Felly, roeddem wedi cymharu costau a buddion y sector gofal cymdeithasol oedolion (y llinell sylfaen) â senario lle nad yw gofal cymdeithasol oedolion ffurfiol a di-dâl yn bodoli. O dan y senario dadansoddol, byddem yn disgwyl y byddai rhai pobl na fyddent yn cael cymorth. Byddai eraill yn derbyn gwasanaethau'r GIG er mwyn cael y cymorth a fyddai wedi cael ei ddarparu fel arall drwy ofal cymdeithasol oedolion. Byddai'r rheini nad oeddent yn cael cymorth yn profi effeithiau niweidiol ar iechyd a llesiant o ganlyniad i beidio â derbyn gofal. Byddent yn fwy tebygol o gael mwy o anafiadau neu afiechydon, gan fod gofal cymdeithasol oedolion yn helpu i atal anafiadau ac afiechydon yn senario'r llinell sylfaen. Byddai'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau'r GIG yn rhoi pwysau ychwanegol ar y GIG, gan y byddent yn aros yn y GIG am nad oedd gofal cymdeithasol oedolion ar gael.

### 2.5.2. Costau a buddion economaidd-gymdeithasol

Roeddem wedi ystyried y costau a buddion canlynol ar gyfer senario'r llinell sylfaen lle mae gofal cymdeithasol oedolion yn bodoli:

**Costau:**

- Cyflogau gofalwyr ffurfiol: Enillion pobl sy'n darparu gofal ffurfiol.
- Cost amnewid gofalwyr di-dâl: Y costau cyfatebol sydd eu hangen i ddarparu'r lefel gofal a gynigir gan ofalwyr di-dâl.
- Adnoddau a gaiff eu gwario ar ddarparu gofal cymdeithasol oedolion: Gwariant ar gostau eraill heblaw llafur, fel adeiladau a thir.

**Buddion:**

- Gwell llesiant o ganlyniad i dderbyn gofal cymdeithasol: Mae'r budd o lesiant gwell yn ymwneud â bodlonrwydd ar wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n cynnwys y profiad a adroddwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau gofal mewn wyth maes canlyniad, sef rheolaeth, urddas, gofal personol, bwyd a maeth, diogelwch, cyfranogiad cymdeithasol a llety. Nid yw'n cynnwys yr effaith o osgoi anafiadau ar lesiant neu ansawdd bywyd.
- Gwell iechyd/ansawdd bywyd o ganlyniad i beidio â chael eu hanafu a chael eu hysbytyeiddio (atal): Mae'r budd hwn yn adlewyrchu'r effaith ar ansawdd a hyd bywyd o ganlyniad i osgoi anafiadau drwy dderbyn gofal cymdeithasol. Nid yw hyn yn cynnwys yr wyth maes sydd wedi'u crybwyll uchod.
- Buddion i'r boblogaeth gyffredinol o gael mwy o dawelwch meddwl: Mae'r

buddion o ran tawelwch meddwl yn ymwneud â phoblogaeth wahanol i'r un ar gyfer y ddau fudd blaenorol. Tra bydd y buddion uchod yn gymwys i oedolion sy'n derbyn gofal cymdeithasol, mae'r buddion o ran tawelwch meddwl yn gymwys i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'n adlewyrchu'r budd o wybod bod gofal cymdeithasol oedolion ar gael os bydd ei angen (yn debyg i yswiriant).

- Llai o gostau i'r GIG o ganlyniad i atal ysbytyeiddio ac achosion brys: Fel y nodwyd ar gyfer yr ail fudd, mae gofal cymdeithasol oedolion yn helpu i atal anafiadau. Ar wahân i'r effaith ar iechyd ac ansawdd bywyd oedolion mewn gofal, mae hyn yn creu arbedion i'r GIG hefyd drwy osgoi ysbytyeiddio.
- Darparu gofal yn fwy effeithlon gan y sector gofal cymdeithasol oedolion o gymharu â'r GIG: Ceir tystiolaeth bod gofal cymdeithasol oedolion yn galluogi pobl feddygol ffit i adael yr ysbyty. Diffyg argaeledd lleoliadau gofal cymdeithasol oedolion yw un o'r prif resymau dros oedi cyn rhyddhau pobl o'r ysbyty. Felly, mae bodolaeth y sector gofal cymdeithasol oedolion yn helpu i ryddhau capasiti'r GIG a gallai atal oedi ychwanegol cyn rhyddhau cleifion os oedd digon o leoliadau ar gael.

# 3. Canfyddiadau

**Mae’r sector gofal cymdeithasol oedolion, yn cynnwys gofal ffurfiol, yng Nghymru, yn creu tua 116,700 o swyddi FTE a gwerth economaidd o £4.6 biliwn rhwng effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig (heb gynnwys gofal di-dâl).**

**Yr effaith uniongyrchol yw’r rhan fwyaf o’r gwerth macro-economaidd hwn, yn dod i fwy na £2.1 biliwn mewn GVA a 74,900 o swyddi FTE. Felly, mae pob swydd FTE yn y sector gofal cymdeithasol oedolion yn creu gwerth o tua £27,800. Ar ôl cynnwys gofal di-dâl yn y cyfrifiadau, mae’r effaith uniongyrchol ar GVA yn cynyddu i bron £8.1 biliwn, a nifer y swyddi FTE yn cynyddu i bron 331,200. Mae hyn yn golygu bod y cynhyrchiant llafur oddeutu £24,500 am bob swydd FTE.**

**Mae’r sector gofal cymdeithasol oedolion hefyd yn creu cyflogaeth a gwerth economaidd mewn sectorau eraill o ganlyniad i’r galw am nwyddau a gwasanaethau canolraddol (e.e. cyflenwadau meddygol) er mwyn darparu gofal (effeithiau anuniongyrchol). Mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod yr effeithiau anuniongyrchol o ofal ffurfiol yn creu 27,000 o swyddi FTE mewn sectorau eraill, gan gynhyrchu GVA o tua £1 biliwn. Yn ogystal â hyn, mae’r gwariant gan unigolion sydd wedi’u cyflogi’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol gan y sector gofal cymdeithasol oedolion yn creu cyflogaeth a gwerth economaidd ychwanegol mewn sectorau eraill (effeithiau ysgogedig). Yn benodol, mae’r effeithiau ysgogedig yn creu 14,900 o swyddi FTE ac yn cynhyrchu GVA o £1.5 biliwn.**

**Ar ben hynny, mae’r sector gofal cymdeithasol oedolion yn creu effeithiau ehangach ar gymdeithas, heblaw cyflogaeth a GVA. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu mai buddion economaidd-gymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yw £22.6 biliwn, tra ceir costau o £8.1 biliwn. Mae hyn yn awgrymu bod pob £1 a gaiff ei gwario ar ofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yn cynhyrchu buddion o £2.78.**

Yn y bennod hon, cyflwynir ein canfyddiadau o’r dadansoddiadau macro-economaidd ac economaidd-gymdeithasol. Ceir disgrifiad manwl o’r fethodoleg sylfaenol a’r ffynonellau yn yr Atodiad Technegol.

Mae’n werth nodi bod data yn ymwneud â rhai mathau o ddarpariaeth gofal cymdeithasol[2] yng Nghymru wedi cael eu codi o ddata a gasglwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn rhan o’i Gasgliad Data’r Gweithlu yn 2023. Nid yw’r casgliad yma wedi’i gyhoeddi. Awgrymodd GCC fod angen defnyddio dulliau amcangyfrif i lenwi bylchau yn y data hyn. Mae triongli â data eraill sydd ar gael yn dangos y gallai rhai gwallau ymddangos yn y ffigurau hyn, felly mae’n bosibl y bydd hyn yn effeithio ar ein canfyddiadau i ryw raddau.

[2] Mae hyn yn ymwneud â gofal dydd a darpariaethau gofal eraill.

# 3.1. Canfyddiadau am yr effaith facro-economaidd

## 3.1.1. Gofal ffurfiol

Er mwyn amcangyfrif yr effaith facro-economaidd gyfan o ganlyniad i weithrediad y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, ystyriwyd effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig. Mae'r adran sy'n dilyn yn dangos ein canfyddiadau am yr effeithiau uniongyrchol.

### Effaith uniongyrchol

Yr effaith uniongyrchol yw honno ar GVA a chyflogaeth. Amcangyfrifwyd yr effaith ar GVA drwy ddefnyddio (i) cyflogau ac enillion yr holl ofalwyr ym mhob math o ddarpariaeth a lleoliad gofal; a (ii) Gwarged Gweithredu Gros darparwyr preifat a gwirfoddol sy'n cynnig gofal preswyl a chartref. Mae'r is-adran isod yn dangos y canlyniadau ar gyfer y gyfran gyntaf, sef cyflogau ac enillion gofalwyr yng Nghymru.

#### *Cyflogau ac enillion*

Mae'r canlyniadau'n awgrymu mai cyfanswm gwerth y cyflogau ac enillion yn y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, heb gynnwys gofal di-dâl, yw tua £1.9 biliwn[3]. Gweithwyr mewn mathau eraill o ddarpariaeth gofal yw'r cyfranwyr mwyaf i'r gwerth hwn, gydag enillion o tua £560.7 miliwn.

**Tabl 1. Incwm gofalwyr ffurfiol yng Nghymru, miliynau o bunnoedd, 2023** [4] [5] [6] [7] [8] [9]

| Math o ofal | Awdurdod lleol | Preifat | Gwirfoddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | £65.2 | £313.8 | £3.0 | £382.1 |
| Gofal nyrsio | £4.2 | £347.6 | £0.0 | £351.8 |

[3] Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu, felly mae'n bosibl na fydd y gwahanol linellau'n dod i'r cyfanswm a ddangoswyd ym mhob achos.

[4] Yn cynnwys darpariaeth Awdurdodau Lleol, Addysg Bellach/Uwch, Llywodraeth, Iechyd, Cyfiawnder, a Rheoleiddio.

[5] Mae data'r gweithlu ar gyfer Cymru yn gasgliad o wybodaeth am gategorïau darparu Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau a Gomisiynwyd. Cymerwyd bod y rhaniad mewn gwasanaethau a gomisiynwyd rhwng rhai preifat a gwirfoddol yr un fath ag yn ICF 2018e.

[6] Cymerwyd bod enillion gofalwyr yn y sector gwirfoddol yn gyfwerth ag enillion y rheini yn y sector preifat, gan ddilyn ICF 2018e.

[7] Cymerwyd enillion cyfartalog cyflogeion mewn lleoliadau gofal eraill yn brocsi dros enillion cyflogeion mewn gwasanaethau gofal dydd rheoleiddiedig. Mae hyn yn ganlyniad i'r ffaith nad yw gofal dydd yn cael ei reoleiddio yn Lloegr, felly nid oes enillion perthnasol yn Lloegr y gellir eu defnyddio. Mae rhagor o fanylion yn yr Atodiad Technegol.

[8] Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau lleoliadau oedolion, gwasanaethau eiriolaeth, gwasanaethau byw â chymorth, timau gwaith cymdeithasol, staff canolog a staff gofal preswyl.

[9] Cyflogir cynorthwywyr personol drwy sefydliadau comisiynu ac maent wedi'u cynnwys yn y mathau darpariaeth perthnasol. Mae gweddill y cynorthwywyr personol yn cael eu cyflogi gan dderbynwyr taliadau uniongyrchol. Felly, dim ond ffigur y cyfanswm sydd wedi'i ddyfynnu ac nid ydym yn ei rannu rhwng darpariaeth breifat, gyhoeddus neu wirfoddol.

| Math o ofal | Awdurdod Lleol | Preifat | Gwirfoddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gofal cartref | £89.0 | £381.9 | £0.0 | £470.9 |
| Gofal dydd | £53.1 | £5.5 | £1.6 | £60.1 |
| Arall | £409.3 | £110.1 | £41.4 | £560.7 |
| **Cyfanswm heb gynnwys cynorthwywyr personol na gofal di-dâl** | **£620.8** | **£1,158.8** | **£46.0** | **£1,825.6** |
| **Cynorthwywyr personol** | Amherth. | Amherth. | Amherth. | £41.5 |
| **Cyfanswm yn cynnwys cynorthwywyr personol ond nid gofal di-dâl** | **£620.8** | **£1,158.8** | **£46.0** | **£1,867.1** |

### *Gwarged Gweithredu Gros*

Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau o'n dadansoddiad o Warged Gweithredu Gros (GOS) darparwyr preifat a gwirfoddol yn ôl y math o ofal. Mae'r canlyniadau'n awgrymu mai cyfanswm y GOS yn y sector gofal cymdeithasol oedolion yw tua £215 miliwn. Gwarged Gweithredu Gros darparwyr gofal preswyl a gofal nyrsio yw'r rhan fwyaf o lawer o gyfanswm y GOS, sef £123 miliwn a £74 miliwn yn y drefn honno.

**Tabl 2. Gwarged Gweithredu Gros darparwyr preifat a gwirfoddol yn ôl y math o ofal, miliynau o bunnoedd, 2023**

| Math o ofal | Gwarged Gweithredu Gros |
|---|---|
| Preswyl | £122.8 |
| Nyrsio | £74.1 |
| Cartref | £18.5 |
| **Cyfanswm** | **£215.4** |

### *Cyfanswm yr effaith uniongyrchol*

Mae cyfanswm yr effaith uniongyrchol, sef hynny ar GVA a chyflogaeth, wedi'i ddangos yn y tabl isod. Roeddem hefyd wedi cyfrifo'r cynhyrchiant llafur fel cymhareb rhwng GVA a phob swydd FTE.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod tua 74,900 o swyddi FTE o ganlyniad i effaith uniongyrchol y sector, yn cynhyrchu GVA o £2.1 biliwn drwy effaith uniongyrchol. Mae hyn yn golygu bod y cynhyrchiant llafur yn y sector gofal cymdeithasol oedolion yn bron £27,800 am bob swydd FTE.

**Tabl 3. Cyfanswm yr effaith uniongyrchol a chynhyrchiant, 2023**

| Math o effaith | Heb gynnwys gofal di-dâl |
|---|---|
| **GVA (miliynau o bunnoedd)** | £2,082.5 |
| **Nifer y swyddi FTE** | 74,900 |
| **Cynhyrchiant (£ am bob swydd FTE)** | £27,800 |

## Effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig

Mae'r sector gofal cymdeithasol oedolion hefyd yn creu cyflogaeth a gwerth mewn sectorau eraill o ganlyniad i'r galw am nwyddau a gwasanaethau canolraddol (e.e. cyflenwadau meddygol) er mwyn darparu gofal (effeithiau anuniongyrchol). Yn ogystal â hyn, mae'r gwariant gan unigolion sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y sector gofal cymdeithasol oedolion yn rhywbeth sy'n creu cyflogaeth a gwerth ychwanegol mewn sectorau eraill (effeithiau ysgogedig).

Fel y mae tabl 4 yn dangos, ceir buddion anuniongyrchol ac ysgogedig sylweddol o ganlyniad i weithrediad y sector gofal cymdeithasol oedolion. Yn benodol, mae bodolaeth y sector gofal cymdeithasol oedolion yn arwain at greu 27,000 o swyddi FTE a chynhyrchu GVA o £1 biliwn mewn sectorau eraill. Yn yr un modd, crëwyd 14,900 o swyddi FTE o ganlyniad i'r gwariant gan unigolion sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y sector gofal cymdeithasol oedolion, sy'n arwain at werth ychwanegol o £1.5 biliwn.

**Tabl 4. GVA a chyflogaeth drwy effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig (heb gynnwys gofal di-dâl), 2023**

| Math o effaith | Anuniongyrchol | Ysgogedig |
|---|---|---|
| **GVA (miliynau o bunnoedd)** | £1,018.4 | £1,456.1 |
| **Nifer y swyddi FTE** | 27,000 | 14,900 |

## Cyfanswm yr effaith facro-economaidd

Mae'r tabl canlynol yn dangos crynodeb o effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Mae'r ffigurau hyn yn dangos cyfanswm gwerth macro-economaidd y sector o ran GVA a chyflogaeth. Nid yw'r tabl yn cynnwys y cyfraniad gan ofalwyr di-dâl sydd fel arfer yn aelodau o'r teulu neu'n ffrindiau sy'n darparu gofal yn ddi-dâl.

Fel y dangosir isod, mae bodolaeth y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yn creu tua 116,700 o swyddi FTE a gwerth ychwanegol o £4.6 biliwn rhwng yr effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig.

**Tabl 5. Effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig, 2023**

| Math o effaith | Uniongyrchol | Anuniongyrchol | Ysgogedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **GVA (miliynau o bunnoedd)** | £2,082.5 | £1,018.4 | £1,456.1 | £4,557.0 |
| **Nifer y swyddi FTE** | 74,900 | 27,000 | 14,900 | 116,700 |

## Dadansoddiad o sensitifrwydd

Mae'r is-adran hon yn cynnig dadansoddiad o sensitifrwydd yr amcangyfrifon o'r gwarged gweithredu gros, yr effaith uniongyrchol ar GVA, a chyfanswm y GVA. Fel y nodwyd yn yr adran ar fethodoleg a'i ddisgrifio yn yr atodiad technegol, mae nifer o ragdybiaethau ynglŷn â'n cyfrifiadau. Er mwyn asesu pwysigrwydd y rhagdybiaethau hyn i'n canlyniadau terfynol, roeddem wedi amrywio un rhagdybiaeth allweddol yn ein

cyfrifiadau o’r effaith facro-economaidd.

Mewn modd tebyg i adroddiad yr ICF (2018e), aseswyd sensitifrwydd y canlyniadau cyffredinol i’r newid yn y ffigwr am Enillion cyn Llog, Trethi, Dibrisiant, Amorteiddio ac Ailstrwythuro neu Renti (EBITDAR) a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo’r gwarged gweithredu gros. Yn benodol, aethom ati’n gyntaf i gymharu’r amcangyfrifon llinell sylfaen (h.y. y canlyniadau a ddangoswyd yn yr adrannau blaenorol) â’r canlyniadau o dan yr EBITDAR a ddefnyddiwyd yn adroddiad yr ICF (2018e). Ystyriwyd y senario hwn er mwyn hwyluso’r cymharu â’r amcangyfrif blaenorol o werth macro-economaidd. Felly, wrth wneud unrhyw gymariaethau â’r amcangyfrif yn adroddiad ICF 2016 a’r amcangyfrif yn yr adroddiad hwn, dylid defnyddio senario “EBITDAR yr ICF”.

Yr ail brawf sensitifrwydd oedd amrywio’r EBITDAR 20% yn uwch ac yn is na’r amcangyfrif llinell sylfaen. Mae amrywio’r amcangyfrif llinell sylfaen yn ôl canran benodol yn dechneg gyffredin wrth ddadansoddi sensitifrwydd (e.e. Hamby, 1995), er mai dewis mympwyol oedd maint y ganran.

Yn fyr, er mwyn asesu sensitifrwydd ein canlyniadau i newidiadau yn yr EBITDAR, roeddem wedi cyfrifo’r GOS, yn ogystal â’r effaith uniongyrchol ar GVA a’i gyfanswm, ar sail 3 EBITDAR gwahanol: (i) llinell sylfaen -20%, (ii) llinell sylfaen +20%; (iii) EBITDAR yr ICF. Mae’r canlyniadau’n awgrymu bod cyfanswm y GVA yn amrywio tua £94 miliwn ym mhennau isaf ac uchaf ein hamcangyfrifon.

**Tabl 6. Cyfanswm yr effeithiau macro-economaidd ar sail gwahanol ragdybiaethau, miliynau o bunnoedd, 2023**

| Senarios | GOS | Effaith uniongyrchol ar GVA | Cyfanswm y GVA |
|---|---|---|---|
| **Llinell sylfaen** | £215.4 | £2,082.5 | £4,557.0 |
| **Llinell sylfaen - 20%** | £172.3 | £2,039.4 | £4,462.7 |
| **Llinell sylfaen + 20%** | £258.5 | £2,125.6 | £4,651.2 |
| **EBITDAR yr ICF** | £180.8 | £2,047.9 | £4,481.1 |

## Gofal di-dâl

Mae gofalwyr di-dâl, mewn modd tebyg i ofalwyr ffurfiol, yn creu gwerth sylweddol yn y sector. Mae’r is-adran hon yn dangos yr amcangyfrifon ar gyfer yr effeithiau macro-economaidd uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig a’u cyfanswm. Yn benodol, pe byddai gofalwyr ffurfiol yn cymryd lle gofalwyr di-dâl, byddai’n costio tua £6 biliwn i gadw’r un lefel o ofal, fel y mae’r tabl isod yn dangos.

**Tabl 7. Cost amnewid gofalwyr di-dâl yng Nghymru, miliynau o bunnoedd, 2023**

| | Gofal di-dâl[10] | Cyfanswm heb gynnwys gofal di-dâl | Cyfanswm yn cynnwys gofal di-dâl |
|---|---|---|---|
| **Cyflogau ac enillion** | £6,032.3 | £1,867.1 | £7,899.4 |

Mae’r tabl isod yn dangos cyfanswm yr effeithiau uniongyrchol gan gynnwys gofal di-

dâl. Yn benodol, mae mwy na 331,200 o swyddi FTE yn y sector, a fyddai'n cyfrannu mwy nag £8.1 biliwn, gyda chynhyrchiant llafur o £24,500 am bob swydd FTE.

[10] Cymerwyd bod cost amnewid gofalwyr di-dâl yn gyfwerth ag enillion cyfartalog yr holl gyflogeion gofal cymdeithasol oedolion, wedi'i phwysoli yn ôl y nifer a gyflogir ym mhob math o leoliad gofal a phob math o ddarpariaeth. Troswyd hyn wedyn i roi ffigur ar sail swyddi FTE drwy ddefnyddio cymhareb nifer y swyddi FTE am bob gofalwr di-dâl.

Wrth gynnwys gofalwyr di-dâl, mae'r cynhyrchiant llafur yn gostwng, gan fod rhagdybiaeth bod cost amnewid un gofalwr di-dâl yn gyfwerth ag enillion un gofalwr ffurfiol. Fodd bynnag, mae nifer y swyddi FTE am un gofalwr di-dâl yng Nghymru yn uwch na'r nifer am un gofalwr ffurfiol. O ganlyniad i hyn, ni fydd rhifiadur y gymhareb cynhyrchiant, h.y. cyfanswm y GVA yn cynnwys gofal ffurfiol a gofal di-dâl, yn cynyddu'n gymesur â'r enwadur, sef nifer y swyddi FTE am bob gofalwr ffurfiol a gofalwr di-dâl.

**Tabl 8. Cyfanswm yr effeithiau uniongyrchol (yn cynnwys gofal di-dâl), 2023**

| Math o effaith | Heb gynnwys gofal di-dâl | Yn cynnwys gofal di-dâl |
|---|---|---|
| **GVA (miliynau o bunnoedd)** | £2,082.5 | £8,114.8 |
| **Nifer y swyddi FTE** | 74,900 | 331,200 |
| **Cynhyrchiant (£ am bob swydd FTE)** | £27,800 | £24,500 |

Mae'r tabl isod yn dangos y GVA a swyddi FTE ar ôl ychwanegu gofalwyr di-dâl. Yr effaith anuniongyrchol ar GVA, wrth gynnwys gofalwyr di-dâl, yw tua £1.1 biliwn a'r effaith anuniongyrchol cysylltiedig ar nifer y swyddi FTE yw 48,100. Mae'r effaith ysgogedig ar GVA yn dod i tua £1.6 biliwn, a'r effaith ysgogedig ar nifer y swyddi FTE yw bron 26,500.

**Tabl 9. Effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig ar GVA a chyflogaeth (yn cynnwys gofal di-dâl), 2023**

| Math o effaith | Anuniongyrchol | Ysgogedig |
|---|---|---|
| **GVA (miliynau o bunnoedd)** | £1,132.7 | £1,619.6 |
| **Nifer y swyddi FTE** | 48,100 | 26,500 |

Yn olaf, mae'r tabl isod yn dangos gwerth cyfanredol yr effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig o'r sector a nodwyd uchod, yn cynnwys gofal di-dâl. Yn gyfan gwbl, mae'r sector gofal cymdeithasol oedolion yn creu GVA o tua £10.9 biliwn a 405,800 o swyddi FTE.

**Tabl 10. Effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig (yn cynnwys gofal di-dâl), 2023**

| Math o effaith | Uniongyrchol | Anuniongyrchol | Ysgogedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **GVA (miliynau o bunnoedd)** | £8,114.8 | £1,132.7 | £1,619.6 | £10,867.1 |
| **Nifer y swyddi FTE** | 331,200 | 48,100 | 26,500 | 405,800 |

### 3.1.2. Cymharu â thystiolaeth flaenorol

Cafwyd ymdrechion o'r blaen i amcangyfrif gwerth macro-economaidd y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Yn fwyaf arbennig, cyhoeddwyd adroddiad gan yr ICF yn 2018 wedi'i seilio ar ddata ar gyfer 2016.

Mae'r blwch isod yn dangos cymariaethau lefel uchel rhwng canfyddiadau yn yr adroddiad hwn ac adroddiad yr ICF. Mae'n bwysig nodi nad yw'r canfyddiadau'n rhai cymaradwy o reidrwydd oherwydd gwahaniaethau o ran (i) data; (ii) methodoleg; a (iii) ffactorau allanol eraill. Felly, ni allwn wneud sylw am achosion unrhyw newidiadau mewn ffigurau ers 2016, gan nad oes modd priodoli'r rhain o reidrwydd i'r sector ei hun.

**Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod y sector gofal cymdeithasol oedolion, yn cynnwys gofal ffurfiol, yng Nghymru, yn creu tua 116,700 o swyddi FTE a gwerth economaidd o £4.6 biliwn rhwng effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig (heb gynnwys gofal di-dâl). Mae'r amcangyfrif o GVA yn cyfateb i tua 5.90% o gyfanswm y GVA yng Nghymru yn 2023.**

**Roedd adroddiad yr ICF wedi amcangyfrif bod y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yn creu tua 93,600 o swyddi FTE a gwerth economaidd o £2.3 biliwn. Isod, rydym yn dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng y ddau amcangyfrif ar sail effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig.**

**Rydym wedi amcangyfrif mai'r effaith uniongyrchol yw GVA o £2.1 biliwn a 74,900 o swyddi FTE, o gymharu â GVA o £1.1 biliwn a 61,600 o swyddi FTE yn adroddiad yr ICF. Felly, mae pob swydd FTE yn y sector gofal cymdeithasol oedolion yn creu gwerth o tua £27,800 yn 2023, o gymharu â £18,700 yn 2016. Y cynnydd mewn GVA rhwng 2016 a 2023 yw tua 81%.**

**Mae ein dadansoddiad hefyd yn awgrymu bod yr effeithiau anuniongyrchol yn creu 27,000 o swyddi FTE mewn sectorau eraill, gan gynhyrchu GVA o tua £1 biliwn. Amcangyfrifon yr ICF yw 23,000 a £553.7 miliwn yn y drefn honno, sy'n rhoi cynnydd o tua 80% mewn GVA.**

**Yn olaf, yr amcangyfrifon o'r effeithiau ysgogedig yn yr adroddiad hwn yw eu bod wedi creu 14,900 o swyddi FTE ac wedi cynhyrchu GVA o £1.5 biliwn. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd yr ICF wedi amcangyfrif bod yr effeithiau ysgogedig wedi creu 9,000 o swyddi FTE a chynhyrchu GVA o £542.5 miliwn. Mae hyn yn awgrymu bod cynnydd o tua 176% mewn GVA er 2016.**

**O edrych ar ganran y gwahaniaethau rhwng ein hamcangyfrifon ni a rhai'r ICF, mae'n ymddangos mai'r effeithiau ysgogedig sydd wedi cynyddu fwyaf, tra cafwyd cynnydd o bron hanner hynny yn yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.**

## 3.2. Effaith economaidd-gymdeithasol

Yn ail ran ein dadansoddiad, edrychwyd ar gostau a buddion y sector gofal cymdeithasol oedolion, o gymharu â senario damcaniaethol lle nad yw'r sectorau gofal ffurfiol a gofal di-dâl yn bodoli. Isod, dangosir canfyddiadau lefel uchel y dadansoddiad hwn. Ceir manylion ychwanegol am ein ffynonellau a methodoleg yn yr Atodiad Technegol.

### 3.2.1. Costau

Mae'r tabl canlynol yn dangos y prif gostau sy'n gysylltiedig â'r sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Fel y nodir isod, yr amcangyfrif o gyfanswm costau'r sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yw tua £8.1 biliwn yn 2023.

Mae'r gost fwyaf yn y sector gofal cymdeithasol oedolion yn ymwneud â'r gwerth a gynhyrchir gan ofal di-dâl, sy'n gyfwerth â'r gost o amnewid gofalwyr di-dâl am staff gofal ffurfiol gan gadw'r ddarpariaeth o ofal ar yr un lefel (£6 biliwn yn 2023).

**Tabl 11.** **Costau o ganlyniad i weithredu gofal cymdeithasol oedolion, miliynau o bunnoedd, 2023**

| | |
|---|---|
| **Cyflogau gofalwyr ffurfiol**[11] | £1,903.4 |
| **Cost amnewid gofalwyr di-dâl** | £6,032.3 |
| **Adnoddau a gaiff eu gwario ar ddarparu gofal cymdeithasol oedolion** | £187.4 |
| **Cyfanswm y costau** | **£8,123.1** |

## Buddion

Yn yr un modd, mae'r tabl canlynol yn dangos y buddion o ddarparu gofal cymdeithasol oedolion. Fel y dangosir isod, yr amcangyfrif o gyfanswm y buddion economaidd-gymdeithasol o'r sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru, yn cynnwys gofal di-dâl, yw tua £22.6 biliwn yn 2023. Y budd mwyaf yw'r gwelliant mewn llesiant o ganlyniad i dderbyn gofal cymdeithasol, sef amcangyfrif o tua £20.9 biliwn yn 2023. Mae'r budd hwn yn cyfateb i'r gwerth ariannol y byddai defnyddwyr gwasanaethau gofal yn barod i'w dalu i sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau fel diogelwch, gofal personol a llety (sydd wedi'u mesur yn yr SCRQoL). Gellir egluro maint y budd hwn drwy gyfeirio at: (i) graddau'r effaith ar lesiant o wasanaethau gofal; (ii) gwerth ariannol yr effeithiau ar lesiant; a (iii) maint y poblogaethau y mae'n effeithio arnynt (h.y. y cyfan o'r boblogaeth sy'n derbyn gofal di-dâl a'r rheini sy'n derbyn gofal ffurfiol, heb gynnwys gofal nyrsio).

**Tabl 12.** **Buddion o ganlyniad i weithredu gofal cymdeithasol oedolion, miliynau o bunnoedd, 2023**

| | |
|---|---|
| **Llesiant gwell o ganlyniad i dderbyn gofal cymdeithasol** | £20,915.5 |
| **Gwell iechyd/ansawdd bywyd o ganlyniad i beidio â chael anaf neu gael eu hysbytyeiddio** | £52.7 |
| **Mwy o fuddion i'r cyhoedd o ran tawelwch meddwl** | £416.1 |
| **Llai o gostau i'r GIG o ganlyniad i atal ysbytyeiddio ac achosion brys** | £1,139.2 |

[11] Sylwer bod anghysondeb bach rhwng cyfanswm cyflogau gofalwyr ffurfiol rhwng y model economaidd-gymdeithasol a'r model macro-economaidd. Mae'r anghysondeb hwn yn codi am fod model yr effaith facro-economaidd yn defnyddio enillion am bob swydd FTE, tra bo'r model economaidd-gymdeithasol yn defnyddio enillion fesul unigolyn. Mae cyfanswm yr enillion yn wahanol am fod y model macro-economaidd yn cyfrifo enillion am bob swydd FTE ar sail y math o leoliad gofal a'r math o ddarpariaeth, tra bo'r model economaidd-gymdeithasol yn defnyddio enillion cyfartalog wedi'u pwysoli i bennu enillion fesul unigolyn. Dewiswyd defnyddio mesurau gwahanol o enillion ar gyfer y ddau fodel am fod eu dibenion yn wahanol. Mae'r model macro-economaidd yn defnyddio enillion am bob swydd FTE er mwyn cael darlun mwy cywir o'r bôn i'r brig. Mewn cyferbyniad â hyn, bydd y model economaidd-gymdeithasol

ar gael i’w ddefnyddio eto i rag-weld costau a buddion yn y dyfodol. I’r perwyl hwn, byddai’r defnydd o enillion am bob gofalwr yn fwy addas ar gyfer gwneud amcanestyniadau am ei fod yn caniatáu cymhwyso cyfraddau twf ar gyfer nifer yr unigolion sy’n derbyn gofal a nifer y gofalwyr.

| | |
|---|---|
| **Darparu gofal yn fwy effeithlon gan y sector gofal cymdeithasol oedolion o gymharu â'r GIG** | £99.1 |
| **Cyfanswm y buddion** | **£22,622.7** |

## Buddion net a'r gymhareb cost a budd

Yn gyffredinol, mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod y buddion o'r sector gofal cymdeithasol oedolion yn fwy o lawer na'r costau. Yn fyr, mae gweithredu'r sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yn creu buddion net o fwy nag £14.5 biliwn (h.y. cyfanswm y buddion llai cyfanswm y costau). Ar ben hynny, mae cymhareb cost a budd y sector gofal cymdeithasol oedolion yn £2.78, a hynny'n awgrymu bod pob £1 a gaiff ei gwario mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru yn dod â buddion o £2.78.

# 4. Atodiad technegol

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno manylion y cyfrifiadau a ffynonellau data a ddefnyddiwyd i amcangyfrif effaith facro-economaidd ac economaidd-gymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Yn Adran 4.1 o'r bennod hon, amlinellir ein dull o gyfrifo'r effeithiau macro-economaidd. Yn benodol, mae is-adran 4.1.1 yn edrych ar y buddion uniongyrchol sy'n deillio o weithredu'r sector gofal cymdeithasol oedolion, sef y Gwerth Ychwanegol Gros (GVA). Mae is-adran 4.1.2 yn rhoi disgrifiad byr o'n dull o gyfrifo'r buddion o ran cynhyrchiant, ac is-adran 4.1.3 yn disgrifio ein methodoleg ar gyfer cyfrifo'r effeithiau anuniongyrchol[12] ac ysgogedig[13] o ofal cymdeithasol oedolion, sef GVA a chyflogaeth. **Yr effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig sydd gyda'i gilydd yn creu effaith facro-economaidd gyfan y sector gofal cymdeithasol oedolion.** Mae Adran 4.2 o'r bennod hon yn egluro ein dull o gyfrifo costau (is-adran 4.2.1) a buddion (is-adran 4.2.2) economaidd-gymdeithasol ehangach y sector gofal cymdeithasol oedolion, sydd wedi'u disgrifio yn y bennod flaenorol.

## 4.1. Effaith facro-economaidd

### 4.1.1. Effeithiau uniongyrchol

#### Gwerth Ychwanegol Gros

Er mwyn cyfrifo GVA, roeddem wedi cyfansymio'r enillion a'r elw a grëwyd gan y sector gofal cymdeithasol oedolion. Mae hyn yn cynnwys:

- **Cyflogau ac enillion** y cyflogeion yn y sector rheoleiddiedig a'r sector nas rheoleiddir, yn ogystal â chynorthwywyr personol a gofalwyr di-dâl. Yn gyntaf, roeddem wedi coladu data am nifer y swyddi a swyddi FTE yn y sector gofal cymdeithasol oedolion. Wedyn lluoswyd y rhain â'r enillion cyfartalog am bob swydd FTE ar gyfer pob math o ofal a lleoliad gofal.
- **Gwarged gweithredu gros** yn y sector annibynnol yn yr holl fathau o leoliadau gofal. Ein nod oedd canfod y gwerth ychwanegol a grëwyd gan y sector o ganlyniad i elw darparwyr preifat a gwirfoddol, ar wahân i gyflogau ac enillion. Er mwyn gwneud hynny, roeddem wedi cymhwyso cymarebau ar gyfer proffidioldeb cyfartalog (EBITDAR)[14] at y lleoliadau mewn cartrefi gofal a'r lleoliadau gofal cartref a ddarperir gan y sector preifat a gwirfoddol. Nid oedd gofal dydd nac unrhyw fathau eraill o ofal wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad hwn gan nad oes gwybodaeth ar gael am eu proffidioldeb.

---

[12] Effeithiau anuniongyrchol yw'r rheini a greir gan y galw am nwyddau a gwasanaethau canolraddol gan y sector gofal cymdeithasol oedolion er mwyn darparu ei wasanaethau (ICF, 2018a).

[13] Effeithiau ysgogedig yw'r rheini a greir gan newidiadau yn ymddygiad prynu unigolion sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y sector gofal cymdeithasol oedolion (ICF, 2018a).

[14] Mae Enillion cyn Llog, Treth, Dibrisiant, Amorteiddio ac Ailstrwythuro neu Renti (EBITDAR) yn fesur safonol o broffidioldeb gweithredu ar gyfer y sector preifat (CMA, 2017).

## Trafodaeth dechnegol fanwl

### *1. Nifer y swyddi a swyddi FTE*

Er mwyn amcangyfrif nifer y cyflogeion a swyddi FTE yn y sector rheoleiddiedig yng Nghymru, roeddem wedi cyfuno gwahanol ffynonellau. Cymerwyd nifer y cyflogeion ar gyfer gofal preswyl, gofal nyrsio a gofal cartref o ddata sy'n cael eu dal yn ganolog gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Cafwyd nifer y cyflogeion ar gyfer gofal dydd a mathau eraill o ddarpariaeth gofal o ddata yn adroddiad gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ar gyfer 2023 (heb ei gyhoeddi). Defnyddiwyd yr adroddiad gweithlu hefyd i amcangyfrif nifer y swyddi FTE ar gyfer gofal dydd a mathau eraill o ofal. Yn benodol, roeddem wedi cyfrifo cymhareb y swyddi FTE am bob unigolyn drwy ddefnyddio data am nifer yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos. Fodd bynnag, nid yw AGC na GCC yn gwahaniaethu rhwng darpariaethau preifat a gwirfoddol. Felly, roeddem wedi cymhwyso'r gymhareb rhwng lleoliadau preifat a chyfanswm y lleoliadau a gomisiynwyd o adroddiad yr ICF (2018e) at y ffigurau a ddefnyddiwyd yn y setiau data a rennir. Mae canlyniadau'r cyfrifiad hwn yn awgrymu bod tua 800 o safleoedd gwasanaeth nas rheoleiddir yng Nghymru yn 2023.

Cyfrifwyd cyfanswm y swyddi mewn gwasanaethau nas rheoleiddir yng Nghymru drwy luosi nifer y safleoedd gwasanaethau nas rheoleiddir â nifer y swyddi/swyddi FTE fesul safle yn Lloegr am nad oes data penodol ar gael ar gyfer Cymru (Skills for Care, 2023). Amcangyfrifwyd nifer y safleoedd gwasanaethau nas rheoleiddir drwy: (i) nodi dosbarthiadau codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) perthnasol[15] yn y Gofrestr Busnesau Rhyngadrannol, (ii) lluosi'r uchod â'r gyfran o safleoedd sy'n cynnig gofal cymdeithasol oedolion gan ddefnyddio Set Ddata'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Oedolion (ASC-WDS) (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021; Skills for Care, 2021), a (iii) tynnu o'r uchod nifer y safleoedd rheoleiddiedig (AGC, 2023).[16] Cyfrifwyd nifer y swyddi FTE perthynol wedyn gan gymryd bod cymhareb y swyddi FTE am bob safle yr un fath rhwng Cymru a Lloegr.

Roeddem wedi cyfrifo ar wahân nifer y gofalwyr di-dâl sy'n hawlio Lwfans Gofalwr drwy ddefnyddio data'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), er nad oedd y lwfans wedi'i gynnwys yn y cyfraniad economaidd uniongyrchol (Adran Gwaith a Phensiynau 2024). Er nad yw'r Lwfans Gofalwr wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer gofalwyr di-dâl yn unig, mae'r maen prawf o uchafswm incwm net o £139 yr wythnos yn golygu ei bod yn annhebygol bod nifer sylweddol o'r hawlwyr yn ofalwyr ffurfiol, gan mai £393 yw eu hincwm wythnosol gros (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022a). Felly, roeddem wedi rhagdybio bod holl hawlwyr y Lwfans Gofalwr yn ofalwyr di-dâl sy'n cael cymorth gan awdurdodau lleol.

---

[15] Gan ddilyn ICF, 2018e, roeddem wedi cynnwys SIC 87: Gweithgareddau gofal preswyl a SIC 88: Gweithgareddau gwaith cymdeithasol heb lety.

[16] Cyfrifwyd nifer y safleoedd gofal rheoleiddiedig drwy adio at ei gilydd y cartrefi gofal heb nyrsio, cartrefi gofal gyda nyrsio, gofal cartref, gwasanaethau lleoliadau oedolion a gwasanaethau eiriolaeth.

Er mwyn cyfrifo nifer y bobl sy'n cyflogi cynorthwywyr personol mewn gofal cymdeithasol oedolion, gwnaed defnydd o ddadansoddiad gan Skills for Care (2023a), yn dangos cyfran yr unigolion sy'n cyflogi cynorthwywyr personol yn uniongyrchol (yn hytrach na thrwy ddarparwyr cofrestredig). Wedyn lluoswyd yr amcangyfrif hwn â nifer yr unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol er mwyn cael nifer y bobl sy'n cyflogi cynorthwywyr personol yn uniongyrchol (tua 1,900) (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2023). Yn olaf, lluoswyd y canlyniad â nifer cyfartalog y gweithwyr am bob cyflogwr, yn yr un modd â'r adroddiad gan Skills for Care a nodwyd uchod.

### *2. Cyflogau ac enillion*

Amcangyfrifwyd enillion yn y sector rheoleiddiedig a'r sector nas rheoleiddir yng Nghymru drwy ddilyn dull yr ICF (2018e). Yn benodol:

- Cyfrifwyd yr enillion cyfartalog yn y sector gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru a Lloegr gan ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022a). Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod gweithwyr gofal ar y lefelau uwch yn Lloegr yn ennill £418 gros yr wythnos, o gymharu â £419 yng Nghymru.
- Wedyn cyfrifwyd cymhareb yr enillion uwch na'r cyfartaledd.
- Lluoswyd y gymhareb wedyn â'r enillion ar gyfer Lloegr a ddyfynnwyd yn ASC- WDS (Skills for Care, 2021).

Defnyddiwyd yr amcangyfrif o enillion cyflogeion y sector ffurfiol hefyd i gyfrifo gwerth gofal di-dâl. Yn benodol, defnyddiwyd enillion cyfartalog cyflogeion yn y sector ffurfiol, wedi'i bwysoli yn ôl nifer y cyflogeion ym mhob lleoliad, yn brocsi dros y digollediad y byddai gofalwyr am dâl yn ei gael i gynnig yr un maint o ofal. Troswyd hyn wedyn i sail swyddi FTE gan ddefnyddio'r gymhareb o swyddi FTE am bob gofalwr di-dâl. Yn olaf, cymhwyswyd y ffigur cyfartalog hwn at nifer yr oriau o ofal di-dâl a ddarperir gan ofalwyr di-dâl (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023b). Nid oedd budd-daliadau neu lwfansau o unrhyw fath a dderbyniwyd gan ofalwyr di-dâl wedi cael eu cynnwys yn y cyfraniad economaidd uniongyrchol, gan mai pwrpas yr ymchwil oedd canfod gwerth yr allbwn a gynhyrchir gan ofalwyr di-dâl.

### *3. EBITDAR*

Gan ddilyn adroddiad KD Network Analytics a Skills for Care (2021), cyfunwyd gwahanol ffynonellau i amcangyfrif yr EBITDAR mewn lleoliadau gofal preswyl a gofal cartref. Yn benodol, aethom ati'n gyntaf i greu cyfres amser ar gyfer gwerthoedd EBITDAR gan ddefnyddio'r ffynonellau canlynol:

- Gwerthoedd EBITDAR rhwng 2012 a 2016 a gymerwyd o adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2017.
- Gwerthoedd EBITDAR ar gyfer 2017 a 2019 a gymerwyd o adroddiad The adult social care market in England, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 2021.
- Gwerthoedd EBITDAR ar gyfer 2018 a briodolwyd ar sail ffigurau KDNA yn The value of adult social care in England (KD Network Analytics a Skills for

Care, 2021).

Wedyn cyfrifwyd cyfradd twf blynyddol cyfartalog y gwerthoedd EBITDAR ar sail y gyfres amser a ddisgrifiwyd uchod, a chymhwyso'r gyfradd twf hon at y data diweddaraf sydd ar gael er mwyn rhagamcanu'r gwerthoedd EBITDAR hyd 2023.

*4. Allbwn y sector annibynnol*

Er mwyn cyfrifo'r Gwarged Gweithredu Gros, lluoswyd y gwerthoedd EBITDAR ar gyfer y lleoliadau gofal preswyl, gofal cartref a gofal nyrsio, a gyfrifwyd yn y cam blaenorol, ag allbwn y sectorau preifat a gwirfoddol yn y lleoliadau gofal perthynol. Cyfrifwyd yr allbwn drwy luosi nifer y defnyddwyr mewn lleoliadau gofal preswyl a chartref preifat a gwirfoddol â'r costau unedol perthynol am ofal, yn cynnwys costau sefydlu, costau byw personol a gwasanaethau allanol. Am nad oes data penodol ar gael ar gyfer Cymru, defnyddiwyd gwybodaeth am gostau unedol ar gyfer Lloegr, a gafwyd gan yr Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (2021) a'r Gymdeithas Gofal Cartref (2023). Addaswyd y costau hyn wedyn i'r cyd-destun Cymreig drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, fel y nodwyd yn is-adran 4.1.1 o'r bennod hon. Yn olaf, lluoswyd y costau unedol perthynol â nifer yr oedolion yng nghartrefi gofal a lleoliadau gofal cartref y darparwyr annibynnol yng Nghymru (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2023b).

### 4.1.2. Cynhyrchiant

Gan ddilyn dull yr ICF (2018e), cyfrifwyd cynhyrchiant llafur fel GVA am bob swydd FTE. Cyfrifwyd GVA, yn cynnwys y cyfraniad gan ofalwyr di-dâl, fel budd ar wahân, tra oedd swyddi FTE yn allbwn canolraddol wrth gyfrifo GVA. Rhannwyd y dangosyddion hyn wedyn i gyfrifo cynhyrchiant llafur.

### 4.1.3. Effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig

Amcangyfrifwyd yr effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig ar GVA a chyflogaeth drwy ddefnyddio tablau lluosyddion effaith. Defnyddiwyd lluosyddion Math I i amcangyfrif yr effeithiau anuniongyrchol ar gyflogaeth a GVA, a defnyddiwyd lluosyddion Math II ar gyfer effeithiau ysgogedig.

Er mwyn cyfrifo'r effaith anuniongyrchol, defnyddiwyd tablau Mewnbwn-Allbwn a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022b), sy'n cynnwys lluosyddion Math I ar gyfer GVA a chyflogaeth. Cymhwyswyd y lluosyddion hyn wedyn at yr effaith uniongyrchol ar GVA, a gyfrifwyd yn yr adran flaenorol, ond heb gynnwys gofalwyr di-dâl (mae eglurhad o hyn ym mharagraff olaf yr is-adran hon).

Er mwyn amcangyfrif yr effeithiau ysgogedig, gwnaed defnydd o gyfres amser o effeithiau uniongyrchol ac ysgogedig ar GVA a gynhyrchwyd gan KD Network Analytics a Skills for Care (2021), gan nad yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynhyrchu lluosyddion Math II ar gyfer GVA neu gyflogaeth. Yn gyntaf, cyfrifwyd y lluosydd Math II ar gyfer GVA drwy rannu'r effaith ysgogedig â'r effaith uniongyrchol ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2012 a 2020. Roedd canlyniadau'r cyfrifiad hwn yn awgrymu bod y lluosydd Math II ar gyfer GVA yn gymharol sefydlog o flwyddyn i flwyddyn, fel y gallem ddefnyddio'r lluosydd ar gyfer 2020 o adroddiad KD Network Analytics a Skills for Care

(2021). Yn yr un modd, amcangyfrifwyd yr effaith ysgogedig ar gyflogaeth drwy gyfrifo'r lluosydd Math II ar gyfer cyflogaeth am 2016 o adroddiad yr ICF (2018a). Wedyn cymhwyswyd y ddau luosydd Math II at yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar GVA a chyflogaeth, heb gynnwys y cyfraniad gan ofalwyr di-dâl.

## 4.2. Effeithiau economaidd-gymdeithasol

### 4.2.1. Costau Gofal Cymdeithasol Oedolion

Isod, dangosir ein dull o gyfrifo costau economaidd-gymdeithasol y sector gofal cymdeithasol oedolion.

#### Cyflogau gofalwyr ffurfiol

Un o brif gostau'r sector gofal cymdeithasol oedolion yw cyflogau gofalwyr ffurfiol. Roeddem wedi cynnwys enillion gofalwyr yn y sector rheoleiddiedig a'r sector nas rheoleiddir ac yn y sectorau cyhoeddus, phreifat a sector y cynorthwywyr personol. Amcangyfrifwyd y rhain fel a ddisgrifiwyd yn is-adran 4.1.1 wrth gyfrifo effaith facro-economaidd y sector. Yn fyr, cafwyd data am enillion cyflogeion yn y sector rheoleiddiedig o'r ASC-WDS a'u haddasu i'r cyd-destun Cymreig drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, fel a ddisgrifiwyd yn yr adran ar gyflogau ac enillion yn y dadansoddiad o'r effaith facro-economaidd (Skills for Care, 2021; Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022a).

#### Cost amnewid gofalwyr di-dâl

Gwyddom fod gofalwyr di-dâl yn rhan sylweddol o'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion. Felly, roeddem wedi cynnwys eu cyfraniad yng nghostau a buddion y sector. Er mwyn cyfrifo'r costau sy'n ganlyniad i fodolaeth gofal di-dâl, roeddem wedi ailadrodd y dull a ddisgrifiwyd yn is-adran 4.1.1 o'r dadansoddiad macro-economaidd. Yn benodol, defnyddiwyd enillion cyfartalog cyflogeion yn y sector gofal ffurfiol, wedi'u pwysoli yn ôl nifer y cyflogeion ym mhob lleoliad. Cymerwyd bod y ffigur hwn yn gyfwerth â'r gwerth a grëwyd gan bob gofalwr di-dâl a'i drosi wedyn i sail swyddi FTE drwy ddefnyddio cymhareb y swyddi FTE am bob gofalwr di-dâl. Wedyn lluoswyd yr enillion â nifer y swyddi FTE y mae gofalwyr di-dâl yn eu darparu, a gyfrifwyd drwy ddefnyddio nifer yr oriau o ofal di-dâl sy'n cael eu darparu bob wythnos (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023b). Mae hyn yn golygu bod gofalwyr di-dâl yn creu gwerth sy'n gyfwerth â'r enillion y byddai gofalwyr ffurfiol yn eu cael am ddarparu gofal ar yr un lefel.

#### Adnoddau a gaiff eu gwario ar ddarparu Gofal Cymdeithasol Oedolion

Ar wahân i'r costau sy'n gysylltiedig â chyflogau, rydym wedi rhoi cyfrif am elfennau cost ychwanegol heblaw llafur sydd ynglŷn â darparu gofal cymdeithasol oedolion. Yn benodol, defnyddiwyd amcangyfrifon o gostau unedol a gafwyd gan yr Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (PSSRU) ar gyfer eitemau fel adeiladau ac argostau, a chostau tir (Bakx et al., 2020). Addaswyd y costau hyn eto i'r cyd-destun Cymreig drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion fel a ddisgrifiwyd yn yr adran ar gyflogau ac enillion yn y dadansoddiad o'r effaith facro-economaidd (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022a).

Rydym yn cydnabod nad yr ymarfer gorau yw defnyddio costau unedol ar gyfer amcangyfrif cyfanswm costau ymyriadau ar raddfa fawr, gan nad yw costau'n rhai llinol ym mhob achos. Er enghraifft, byddai'r gost fesul oedolyn am ofal preswyl yn gallu gostwng wrth gynnwys mwy o oedolion o ganlyniad i rannu adnoddau a defnydd mwy effeithlon o gyfleusterau. Er hynny, mae rhai costau, fel costau personél neu gyfarpar arbenigol iawn, a allai beidio â bod yn rhai llinol. Y rheswm am hyn yw bod gwasanaethau, rhaglenni neu ymyriadau'n gallu dangos arbedion maint neu adenillion lleihaol. Fodd bynnag, y costau unedol a gafwyd gan PSSRU oedd y dystiolaeth orau a oedd ar gael.

### 4.2.2. Buddion Gofal Cymdeithasol Oedolion

Yn yr adran hon, disgrifir ein dull o fesur buddion economaidd-gymdeithasol a phriodoli gwerth ariannol iddynt. Yn benodol, roeddem wedi cynnwys: (i) effeithiau ar ansawdd bywyd a llesiant, (ii) buddion o ran tawelwch meddwl, a (iii) costau i'r GIG a osgöwyd.

#### Costau i'r GIG a osgöwyd

*1. Derbyniadau i ysbytai*

Mae gofal cymdeithasol oedolion yn helpu i leihau'r angen am ysbytyeiddio drwy gynnig gwasanaethau gofal. Yn y senario dadansoddol heb ofal cymdeithasol oedolion, rydym yn disgwyl gweld cynnydd mewn ysbytyeiddio. Am nad oes tystiolaeth benodol ddibynadwy ar gyfer y DU, rydym wedi troi at lenyddiaeth mewn gwledydd tramor i edrych ar rai o'r effeithiau yn yr adran hon. Er enghraifft, er mwyn amcangyfrif y gyfran o gostau derbyn i'r ysbyty sy'n cael ei hosgoi drwy ddarparu gofal cymdeithasol, roeddem wedi dilyn KD Network Analytics a Skills for Care (2021) a defnyddio tystiolaeth o Bax (2020) sy'n dangos bod derbyn pobl i gartrefi gofal yn yr Iseldiroedd yn lleihau'r tebygolrwydd o dderbyn pobl i'r ysbyty o 28%. Roeddem wedi cymhwyso'r cyfernod hwn wedyn at nifer y derbyniadau o blith oedolion sy'n derbyn gofal cymdeithasol oedolion yn y senario llinell sylfaen. Er mwyn cyfrifo nifer yr oedolion sy'n cael eu hysbytyeiddio o ofal cymdeithasol oedolion, gwnaed defnydd o ymchwil gan Smith et al. (2015), sy'n dangos bod 8.2% o'r holl dderbyniadau i ysbytai yn dod o blith preswylwyr cartrefi gofal. Roeddem wedi cymhwyso'r cyfernod hwn wedyn at gyfanswm y derbyniadau i ysbytai yng Nghymru (Iechyd a Gofal Digidol Cymru, 2023). Yn olaf, priodolwyd gwerth ariannol i nifer y derbyniadau o ofal cymdeithasol oedolion a osgöwyd. Defnyddwyd y costau unedol am gleifion mewnol ar gyfer gofal a gynlluniwyd a gofal heb ei gynllunio o Gasgliad Costau Cenedlaethol NHS England, a addaswyd wedyn i'r cyd-destun Cymreig drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, fel a ddisgrifiwyd o'r blaen (NHS England, 2021; Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022a).

*2. Derbyniadau i adrannau A&E*

Mae gofal cymdeithasol oedolion hefyd yn helpu i atal derbyniadau am ddamweiniau ac achosion brys, gan liniaru'r pwysau ar y GIG. O dan ein senario dadansoddol, er enghraifft, byddai pobl a fyddai wedi cael gofal o'r blaen yn fwy tebygol o gael eu hanafu a byddent yn derbyn gofal gan y GIG. Roeddem wedi edrych ar wahanol ddulliau o gyfrifo derbyniadau A&E y gellir eu hosgoi. Yn y diwedd, defnyddiwyd amcangyfrifon a gafwyd gan y Sefydliad Iechyd, yn dangos bod 41% o'r holl

dderbyniadau A&E o blith preswylwyr cartrefi gofal yn rhai y gellid eu hosgoi (Wolters et al., 2019). Y ganran gyfatebol ar gyfer y boblogaeth gyffredinol o'r un oed oedd 27%. Roeddem wedi cymryd bod y gwahaniaeth o 14 pwynt canran mewn derbyniadau y gellid eu hosgoi yn ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd gan gartrefi gofal. Wedyn lluoswyd y gwahaniaeth pwyntiau canran hwn â nifer cyfartalog y derbyniadau A&E am bob preswylydd cartref gofal dros 65 oed[17], fesul blwyddyn (Wolters et al., 2019).

[17] O ganlyniad i gyfyngiadau ar y data, defnyddiwyd amledd y derbyniadau i ysbytai ymysg preswylwyr cartrefi gofal dros 65 oed yn brocsi dros gyfanswm y derbyniadau i ysbytai ymysg yr holl breswylwyr cartrefi gofal.

Mae'r cyfrifiad hwn yn rhoi nifer y derbyniadau A&E y gellid eu hosgoi fesul person, fesul blwyddyn, a gymhwyswyd wedyn at yr holl oedolion sy'n derbyn gofal di-dâl o dan ein senario dadansoddol a'r holl oedolion mewn gofal preswyl heb nyrsio, gofal cartref a gofal personol, a gyfrifwyd yn ystod y dadansoddiad o'r effaith facro-economaidd.

### *3. Rhyddhau o ofal acíwt*

Mae bodolaeth gofal cymdeithasol oedolion yn helpu'r GIG i ryddhau pobl o'r ysbyty, gan alluogi'r GIG i dderbyn mwy o gleifion newydd a lleihau costau sy'n gysylltiedig â dyddiau gwely. Felly, mae'r gallu i osgoi oedi wrth ryddhau cleifion yn cael ei gysylltu â chostau llai i'r GIG o ganlyniad i lai o ddyddiau gwely.

Roeddem wedi amcangyfrif dau fath o oedi wrth ryddhau y gellid eu hosgoi o ganlyniad i fodolaeth gofal cymdeithasol oedolion. Yn gyntaf, amcangyfrifwyd nifer yr achosion o oedi wrth ryddhau cleifion y gellid eu hosgoi os oedd digon o leoliadau mewn gofal cymdeithasol oedolion ("oedi y gellid ei osgoi" o hyn ymlaen). Er mwyn gwneud hyn, defnyddiwyd amcangyfrifon StatsCymru (2023) yn dangos nifer yr achosion o oedi wrth ryddhau a'r rheswm drostynt: roedd hyn yn ein galluogi i gyfrifo'r gyfran o'r holl achosion o oedi wrth ryddhau cleifion sydd yn ganlyniad i'r ffaith nad oes lleoliadau gofal ar gael.

Yr ail fath o oedi a ystyriwyd oedd oedi nad yw'n cael ei wireddu yn y senario llinell sylfaen oherwydd bodolaeth gofal cymdeithasol oedolion. Mae oedi o'r fath yn cael ei osgoi am fod gofal cymdeithasol oedolion yn cynnig lleoliadau i bobl sy'n feddygol ffit i gael eu rhyddhau. Fodd bynnag, yn ein senario dadansoddol, nid yw'r lleoliadau hyn ar gael bellach, fel bod mwy o achosion o oedi wrth ryddhau cleifion. Er mwyn amcangyfrif y gyfran o'r holl benderfyniadau i ryddhau cleifion sy'n bosibl oherwydd bodolaeth lleoliadau gofal cymdeithasol oedolion, defnyddiwyd tystiolaeth a gafwyd gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru (2022), yn dangos canran y cleifion a gaiff eu rhyddhau i breswylfa wahanol o gymharu â'r holl gleifion a ryddheir. Yn niffyg data cywirach, rydym yn cymryd bod yr holl gleifion a ryddheir i breswylfa wahanol yn gleifion a ryddheir i ofal cymdeithasol oedolion.

Rhoddwyd cyfran yr achosion o oedi wrth ryddhau y gellid eu hosgoi oherwydd bodolaeth gofal cymdeithasol oedolion, yn ogystal â chyfran y rheini nad ydynt yn cael eu gwireddu am fod lleoliadau gofal cymdeithasol oedolion ar gael, at (i) cleifion presennol y GIG, (ii) cleifion GIG ychwanegol sy'n derbyn gofal a gynigiwyd o'r blaen gan ofal cymdeithasol oedolion, a (iii) pobl ychwanegol yn dod i mewn i'r GIG drwy adrannau A&E, roedd gofal cymdeithasol oedolion wedi helpu i osgoi eu derbyn o dan y senario llinell sylfaen. Priodolwyd gwerth ariannol i'r effeithiau hyn wedyn drwy ddefnyddio amcangyfrifon o gostau dyddiau gwely ychwanegol (NHS Improvement, 2020), a addaswyd i'r cyd-destun Cymreig drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, fel y disgrifiwyd o'r blaen (NHS Improvement, 2020; Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022a).

## Buddion o ran tawelwch meddwl

Mae diffyg tystiolaeth am fuddion a geir o ran tawelwch meddwl o ganlyniad i ofal

cymdeithasol oedolion yn y DU. Felly, roeddem wedi ystyried dulliau gwahanol o gyfrifo'r budd hwn. Yn yr holl astudiaethau a adolygwyd, roedd buddion o ran tawelwch meddwl wedi cael eu cyfrifo drwy gymryd y gwahaniaeth rhwng taliadau yswiriant a'r hawliadau am yswiriant y talwyd amdanynt. Drwy rannu cyfanswm yr hawliadau â chyfanswm y taliadau yswiriant, ceir y gymhareb colled. Er enghraifft, os mai 40% yw'r gymhareb colled, mae hyn yn golygu bod rhywun sy'n talu am yswiriant yn gallu disgwyl cael dim ond 40% yn ôl o'r arian y mae'n ei dalu mewn premiymau yswiriant. Felly, rhaid bod y 60% sy'n weddill yn cynrychioli math arall o fudd i brynwr yr yswiriant: fel arall, dim ond y 40% y byddai'n ei gael yn ôl drwy hawliadau y byddai'n barod i'w dalu. Mae ymchwil yn awgrymu bod y gwerth sy'n weddill (60% yn yr achos hwn) yn cynrychioli buddion o ran tawelwch meddwl.

Mae Forder (2011) wedi edrych ar y buddion o ran tawelwch meddwl a geir o Flwydd-daliadau at Anghenion ar y Pryd (INAs), un o'r ychydig gynhyrchion yswiriant preifat yn y DU. Daeth yr awdur i'r casgliad y byddai unigolion yn talu cost gofal gydol oes o hyd at £69,000 ar gyfartaledd drwy INAs, tra byddent yn talu £66,000 hebddynt. Y gwahaniaeth o £3,000 (neu 4% o'r premiwm) yw'r budd lleiaf o ran tawelwch meddwl y mae deiliaid INAs yn ei dderbyn (neu, mewn termau eraill, 96% yw'r gymhareb colled uchaf). Mewn adroddiad gan Buckle et al. (2019) am 15 o yswirwyr iechyd preifat yn y DU, cyfrifwyd bod y gymhareb colled am yswiriant meddygol yn amrywio rhwng 59% a 73%. Yn olaf, mae tystiolaeth o farchnad yswiriant hirdymor UDA yn awgrymu bod y gymhareb colled rhwng 40% a 60% (Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 2022).

At ei gilydd, mae'r cymarebau colled yn amrywio rhwng 40% a 96% rhwng y gwahanol astudiaethau a sectorau. Am nad oes un gymhareb colled sy'n cael ei derbyn yn gyffredinol yn y DU, roeddem wedi defnyddio cyfartaledd yr amcangyfrifon isaf ac uchaf yn y DU (h.y., cyfartaledd 59% a 96%).

Cymerwyd y gymhareb a gafwyd o ganlyniad (cymhareb colled o 78% neu fudd o ran tawelwch meddwl o 22%) a'i lluosi â'r pris teg am ofal, a gyfrifwyd fel cyfanswm y gwariant net ar ofal cymdeithasol oedolion o Ddadansoddiadau Ystadegol Trysorlys EF o Wariant Cyhoeddus (Trysorlys EF, 2023). Yn benodol, defnyddiwyd llinell gost "gwasanaethau cymdeithasol personol" am henaint a salwch ac anabledd.

## Buddion o ran ansawdd bywyd a llesiant

### *1. Ansawdd bywyd cysylltiedig â gofal cymdeithasol (SCRQoL)*

Mae SCRQoL yn rhan o'r Fframwaith Canlyniadau Gofal Cymdeithasol Oedolion (ASCOF)[18] ac mae'r Arolwg Gofal Cymdeithasol Oedolion (ASCS) wedi'i gynnwys yn y mesur "1A: Ansawdd bywyd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau". Mae hyn yn mesur y profiad y mae defnyddwyr gwasanaethau gofal wedi'i adrodd mewn wyth maes canlyniad, sef rheolaeth, urddas, gofal personol, bwyd a maeth, diogelwch, cyfranogiad cymdeithasol a llety. Felly, mae'r effeithiau a gofnodwyd yn rhai ar wahân i'r effeithiau ar lesiant o ganlyniad i osgoi anafiadau, sydd wedi'u cofnodi o dan QALYs isod, fel bod y risg o gyfrif dwbl wedi'i hosgoi.

Er mwyn sicrhau nad yw ffactorau sydd heb gysylltiad â gwasanaethau yn effeithio ar yr

effaith ar ansawdd bywyd a fesurwyd, roeddem wedi defnyddio’r mesur “1B: Ansawdd bywyd pobl sy’n defnyddio gwasanaethau” o’r ASCS, sef y mesur 1A wedi’i addasu ar gyfer dewisiadau defnyddwyr gwasanaethau a ffactorau allanol a allai ddylanwadu ar y canfyddiad o lesiant. Wrth ddefnyddio’r mesur hwn, roeddem yn dilyn y fethodoleg a ddisgrifiwyd yn Forder et al. (2016). Fodd bynnag, mae’r ASCS yn arolwg ar gyfer Lloegr yn unig. Er mwyn amcangyfrif yr effaith o wariant ar ofal cymdeithasol oedolion ar SCRQoL yng Nghymru, edrychwyd ar wahanol ddulliau a phenderfynu yn y diwedd ar rannu’r gwariant ar ofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr â’r SCRQoL a sicrhawyd. Roedd hyn yn ein galluogi i amcangyfrif y gost fesul SCRQoL, a chymhwyswyd hyn wedyn at y gwariant ar ofal cymdeithasol oedolion ffurfiol yng Nghymru. Cafwyd y gwariant yn y ddwy wlad o Ddadansoddiadau Ystadegol Trysorlys EF o Wariant Cyhoeddus fel y disgrifiwyd uchod (Trysorlys EF, 2023).

[18] Mae’r ASCOF yn mesur i ba raddau y mae gwasanaethau gofal a chymorth yn sicrhau’r canlyniadau sydd bwysicaf i bobl.

Defnyddiwyd tystiolaeth o Stevens, et al. (2018) wedyn sy'n dangos bod y SCRQoL a addaswyd yn cyfateb o ran llesiant i QALY. Felly, priodolwyd gwerth ariannol i'r effaith ar SCRQoL drwy gymhwyso gwerth ariannol QALY (Trysorlys EF, 2021). Yn olaf, cymhwyswyd gwerth ariannol yr effaith at oedolion sy'n derbyn gofal di-dâl yn ôl y llinell sylfaen, yn ogystal â'r rheini sy'n derbyn gofal ffurfiol yn ôl y llinell sylfaen ond nad ydynt yn derbyn unrhyw gymorth yn ein senario dadansoddol.

### *2. Blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd*

Mae mynediad at ofal cymdeithasol yn ei gwneud yn llai tebygol o lawer y bydd unigolion yn cael anafiadau a thrwy hynny mae'n atal dirywiad yn eu hiechyd (Crawford, 2020; Gabrielle F Miller et al., 2022). Felly, mae gofal cymdeithasol yn gallu arwain at gynnydd ym "maint ac ansawdd bywyd", sy'n cael ei fesur mewn Blynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd (QALYs), drwy atal anafiadau ac afiechydon, ar ben yr effaith ar lesiant o ganlyniad i dderbyn gofal, sy'n cael ei mesur drwy SCRQoL (Swyddfa Gwelliannau a Gwahaniaethau Iechyd, 2020). O dan y senario dadansoddol, ni fyddai pobl yn derbyn gofal cymdeithasol oedolion bellach a gallent gael anafiadau y byddai modd eu hatal. Yn ôl Wolters et al. (2019), y derbyniadau mwyaf cyffredin i ysbytai y gellir eu hosgoi yw'r rheini am niwmonia, heintiau'r llwybr wrinol, a thor-esgyrn neu ysigiadau. Er mwyn amcangyfrif nifer y derbyniadau hyn, roeddem wedi cymhwyso eu cyfraddau digwyddedd at nifer y derbyniadau i adrannau A&E y gellid eu hosgoi o ganlyniad i fodolaeth gofal cymdeithasol oedolion (a gyfrifwyd yn 1.2) ar gyfer oedolion a oedd yn derbyn gofal o'r blaen ond na fyddent yn cael unrhyw gymorth o dan y senario dadansoddol. Wedyn priodolwyd gwerth ariannol i effaith yr anafiadau neu afiechydon y gellid eu hatal ar faint ac ansawdd bywyd er mwyn amcangyfrif yr arbedion y mae gofal cymdeithasol oedolion yn eu creu drwy atal anafiadau.

Er mwyn amcangyfrif effaith anafiadau ac afiechydon ar faint ac ansawdd bywyd, aethom ati'n gyntaf i gymhwyso pwysoliadau am anabledd[19] ar gyfer yr anafiadau ac afiechydon sy'n cael eu hosgoi amlaf mewn cartrefi gofal at y Blynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Anabledd (DALYs) (Institute for Health Metrics and Evaluation, 2019).[20] Er mwyn trosi DALYs yn QALYs, edrychwyd ar wahanol ddulliau a chymryd yn y diwedd fod enillion o ran QALYs yn gyfwerth yn fras â cholledion o ran DALYs, gan ddilyn Bevan et al. (2007). Priodolwyd gwerth ariannol wedyn i'r effeithiau hyn ar QALY drwy ddefnyddio'r gwerth ariannol diweddaraf ar gyfer QALY, sef £70,000 ym mhrisiau 20/21 yn ôl y Llyfr Gwyrdd (Trysorlys EF, 2022).

[19] Pwysoliadau am anabledd yw gwerthoedd sy'n cynrychioli'r effaith ar iechyd sy'n gysylltiedig ag afiechydon penodol ac fe'u cynhyrchir drwy ymgyngoriadau â chlinigwyr, arbenigwyr neu aelodau o'r gymuned. Cymhwysir y rhain at Flynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Anabledd (DALYs) i amcangyfrif y cyfraddau afiachedd a marwolaethau ar gyfer afiechydon penodol (Hagell a Cheung, 2019).

[20] Mae QALY yn mesur nifer cyfatebol y blynyddoedd o fywyd iach, a DALY yn mesur colledion iechyd. Mae gwerth QALY o 1 yn cyfateb i un flwyddyn o iechyd perffaith, a gwerth DALY o 1 yn cyfateb i

farwolaeth (National Collaborative Centre for Infectious Diseases, 2015).

# 5. Cyfeiriadau


Adran Gwaith a Phensiynau. 2024. 'DWP Benefits Statistics'. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/collections/dwp-statistical-summaries (25 Ebrill, 2024).

Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. 2018. How Can We Improve Support for Carers? https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/713695/response-to-carers-call-for-evidence.pdf.

Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. 2022. Social Care Charging Reform Impact Assessment. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/61d5d4bfd3bf7f1f6f74330f/adult-social-care-charging-reform-impact-assessment.pdf.

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. 2022. 'Rural Productivity and Gross Value Added (GVA)'. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/statistics/rural-productivity/rural-productivity-and-gross-value-added-gva (17 Mai, 2024).

Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. 2017. Care Homes Market Study. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a1fdf30e5274a750b82533a/care-homes-market-study-final-report.pdf.

Bakx, Pieter, Bram Wouterse, Eddy van Doorslaer, ac Albert Wong. 2020. 'Better off at Home? Effects of Nursing Home Eligibility on Costs, Hospitalizations and Survival'. Journal of Health Economics 73: 102354. doi:10.1016/j.jhealeco.2020.102354.

Bevan, Gwyn, Mara Airoldi, Alec Morton, Monica Oliveira, a Jennifer Smith. 2007. Estimating Health and Productivity Gains in England from Selected Interventions. https://www.health.org.uk/sites/default/files/EstimatingHealthAndProductivityGainsEnglandFromSelecetdInterventions_%20fullreport.pdf.

Buckle, Joanne, Kevin Manning, Tanya Hayward, Ankush Aggarwal, a Kishan Desai. 2019. Brief Study of UK Health Insurers' Second SFCRs. https://uk.milliman.com/-/media/milliman/importedfiles/uploadedfiles/insight/2019/uk-health-insurers-second-sfcrs.ashx.

Crawford, Rowena, George Stoye, a Ben Zaranko. 2020. 'Long-Term Care Spending and Hospital Use among the Older Population in England'. Institute for Fiscal Studies. https://ifs.org.uk/publications/long-term-care-spending-and-hospital-use-among-older-population-england (25 Ebrill, 2024).

Cymdeithas Gofal Cartref. 2023. 'The Homecare Deficit 2023'. https://www.homecareassociation.org.uk/resource/the-homecare-deficit-2023-pdf.html (25 Ebrill 2024).

Forder, Julien. 2011. Immediate Needs Annuities in England. https://www.pssru.ac.uk/pub/dp2776.pdf.

Forder, Julien, Juliette Malley, Stacey Rand, Florin Vadean, Karen Jones, ac Ann Netten. 2016. Identifying the Impact of Adult Social Care: Interpreting Outcome Data for Use in the Adult Social Care Outcomes Framework. https://www.pssru.ac.uk/pub/4633.pdf.

Foster, David. 2024. 'Adult Social Care Workforce in England'. https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-9615/ (1 Mai, 2024).

Gofal Cymdeithasol Cymru. 2023a. 'Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. https://www.socialcaredata.wales/category?c=25&p=4.

Gofal Cymdeithasol Cymru. 2023b. 'Gwasanaethau a dderbynnir gan oedolion 18+ oed'. https://www.socialcaredata.wales/dataset?c=373&p=4,25&i=72781.

Hagell, Ann, a Ronny Cheung. 2019. 'Using DALYs to Understand Young People's Health'. Nuffield Trust. https://www.nuffieldtrust.org.uk/resource/using-dalys-to-understand-young-people-s-health (25 Ebrill, 2024).

Hamby, D. M. 1995. 'A Comparison of Sensitivity Analysis Techniques'. Health Physics 68(2): 195–204. doi:10.1097/00004032-199502000-00005.

ICF. 2018a. The Economic Value of the Adult Social Care Sector – England. https://www.skillsforcare.org.uk/resources/documents/About-us/SfCD/Economic-value-of-the-adult-social-care-sector-England.pdf.

ICF. 2018b. The Economic Value of the Adult Social Care Sector – Northern Ireland. https://www.skillsforcare.org.uk/resources/documents/About-us/SfCD/The-economic-value-of-the-adult-social-care-sector-Northern-Ireland.pdf.

ICF. 2018c. The Economic Value of the Adult Social Care Sector – Scotland. https://www.sssc.uk.com/knowledgebase/article/KA-02264/en-us.

ICF. 2018d. The Economic Value of the Adult Social Care Sector – UK. https://skillsforcareanddevelopment.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/10-_-The-economic-value-of-the-adult-social-care-sector_FINAL-whole-report-with-addendum2.pdf.

ICF. 2018e. Gwerth Economaidd y sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Cymru. Gwerth-Economaidd-y-Sector-Gofal-Cymdeithasol-i-Oedolion_Cymru.pdf.

Iechyd a Gofal Digidol Cymru. 2023. 'Delivering Digital Healthcare to the People of Wales'. https://dhcw.nhs.wales/information-services/information-delivery/annual-pedw-data-tables/hospital-admissions-publications-tables/headline-figures-all-wales-providers-2022-23/.

Institute for Health Metrics and Evaluation. 2019. Global Burden of Disease Study 2019 Disability Weights. https://ghdx.healthdata.org/record/ihme-data/gbd-2019-disability-weights.

KD Network Analytics a Skills for Care. 2021. The Value of Adult Social Care in England. https://www.skillsforcare.org.uk/Adult-Social-Care-Workforce-Data/Workforce-intelligence/documents/The-value-of-adult-social-care-in-England-FINAL-report.pdf.

Llywodraeth Cymru. 2014. 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014'. https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/welsh.

Miller, Gabrielle, Curtis Florence, Sarah Beth Barnett, Cora Peterson, Bruce Lawrence, a Ted Miller. 2022. 'Monetised Estimated Quality-Adjusted Life Year (QALY) Losses for Non-Fatal Injuries'. https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/35296543/.

National Collaborative Centre for Infectious Diseases. 2015. 'Understanding Summary Measures Used to Estimate the Burden of Disease: All about HALYs, DALYs and QALYs'. National Collaborating Centre for Infectious Diseases. https://nccid.ca/publications/understanding-summary-measures-used-to-estimate-the-burden-of-disease/ (25 Ebrill, 2024).

NHS Digital. 2023. 'Personal Social Services Adult Social Care Survey, England, 2022-23'. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/statistics/personal-social-services-adult-social-care-survey-england-2022-23 (17 Mai, 2024).

NHS Improvement. 2020. 'Archived Reference Costs'. https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20200501111106/https:/improvement.nhs.uk/resources/reference-costs/.

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru. 2022. 'Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai'. https://senedd.cymru/media/uydleppz/cr-ld15151-w.pdf

Skills for Care. 2021. 'Adult Social Care Workforce Data Set (ASC-WDS)'. https://www.data.gov.uk/dataset/9cd42409-1a44-4e6c-9696-29d6a760e746/adult-social-care-workforce-data-set-asc-wds (25 Ebrill, 2024).

Skills for Care. 2023a. Individual Employers and the Personal Assistant Workforce. https://www.skillsforcare.org.uk/Adult-Social-Care-Workforce-Data/Workforce-intelligence/documents/Individual-employers-and-the-PA-workforce/IE-and-PA-survey-2023.pdf.

Skills for Care. 2023b. 'The Size and Structure of the Adult Social Care Sector and Workforce in England'. https://www.skillsforcare.org.uk/Adult-Social-Care-Workforce-Data/Workforce-intelligence/publications/national-information/The-size-and-structure-of-the-adult-social-care-sector-and-workforce-in-England.aspx.

Smith, Paul, Chris Sherlaw-Johnson, Cono Ariti, a Martin Bardsley. 2015. Focus on: Hospital Admissions from Care Homes. https://www.health.org.uk/sites/default/files/QualityWatch_FocusOnHospitalAdmissionsFromCareHomes.pdf.

StatsCymru. 2023. 'Llwybrau gofal oedi oherwydd yr oedi a'r dyddiad'. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Performance/pathway-of-care-delays/pathwayofcaredelays-by-reasonfordelay-date.

Stevens, Katherine, John Brazier, a Donna Rowen. 2018. 'Estimating an Exchange Rate between the EQ-5D-3L and ASCOT'. The European journal of health economics: HEPAC: health economics in prevention and care 19(5): 653–61. doi:10.1007/s10198-017-0910-x.

Swyddfa Archwilio Genedlaethol. 2021. The Adult Social Care Market in England. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/The-adult-social-care-market-in-England.pdf.

Swyddfa Gwelliannau a Gwahaniaethau Iechyd. 2020. 'Cost Utility Analysis: Health Economic Studies'. GOV.UK. https://www.gov.uk/guidance/cost-utility-analysis-health-economic-studies (25 Ebrill, 2024).

Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2017. 'Regional Gross Value Added'. https://www.ons.gov.uk/economy/grossvalueaddedgva/methodologies/regionalgrossvalueaddedincomeapproachqmi (17 Mai, 2024).

Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2021. 'Inter-Departmental Business Register'. https://www.ons.gov.uk/aboutus/whatwedo/paidservices/interdepartmentalbusinessregisteridbr (25 Ebrill, 2024).

Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2022a. 'Annual Survey of Hours and Earnings (ASHE) - Guide to Tables'. https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/annualsurveyofhoursandearningsasheguidetotables (25 Ebrill, 2024).

Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2022b. 'Input-Output Analytical Tables'. https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/supplyandusetables/articles/inputoutputanalyticaltables/guidanceforuse (25 Ebrill, 2024).

Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2023a. 'Productivity Overview, UK'. https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/labourproductivity/articles/ukproductivityintroduction/apriltojune2023 (25 Ebrill, 2024).

Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2023b. 'Provision of Unpaid Care'. https://www.ons.gov.uk/datasets/TS039/editions/2021/versions/3 (25 Ebrill, 2024).

Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2024a. 'National Population Projections'. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/bulletins/nationalpopulationprojections/2021basedinterim (1 Mai, 2024).

Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2024b. 'Regional Gross Value Added (Balanced) per Head and Income Components'. https://www.ons.gov.uk/economy/grossvalueaddedgva/datasets/nominalregionalgrossvalueaddedbalancedperheadandincomecomponents (20 Mai, 2024).

Trysorlys EF. 2021. 'Wellbeing Guidance for Appraisal: Supplementary Green Book Guidance'. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/60fa9169d3bf7f0448719daf/Wellbeing_guidance_for_appraisal_-_supplementary_Green_Book_guidance.pdf.

Trysorlys EF. 2022. ‘The Green Book (2022)’. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-government/the-green-book-2020 (25 Ebrill, 2024).

Trysorlys EF. 2023. Public Expenditure Statistical Analyses 2023. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/64b69e320ea2cb001315e4f6/E02929310_HMT_PESA_2023_Accessible.pdf.

Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol. 2021. ‘Unit Costs of Health and Social Care’. https://www.pssru.ac.uk/project-pages/unit-costs/ (25 Ebrill, 2024).

Wolters, Arne, Filipe Santos, Therese Lloyd, Creina Lilburne, ac Adam Steventon. 2019. Emergency Admissions to Hospital from Care Homes: How Often and What For? https://www.health.org.uk/sites/default/files/upload/publications/2019/Emergency-admissions-from-care-homes-IAU-Q02.pdf.